





BUDDUG.

Jeanie Ellis,

August 16th 1911

CANIADAU BUDDUG.



Wedi eu Casglu a'u Dethol
gan ei Phriod.



CAERNARFON : SWYDDFA "CYMRU."

—
1911.



Mon' nobis Domine Mon' nobis
IHS
I 6 3 4



RHAGYMADRODD.

YN eglwys Llaneilian, Mon, y mae cerflun o wraig ar ei gliniau o flaen allor. Wrth ei phen y mae'r weddi,—“Nid i ni, Arglwydd, nid i ni, ond i'th enw di.” Uwchben hynny y mae llythrennau cyntaf “Iesus Hominum Salvator,”—Iesu Gwardwr dynol ryw.

Y mae'r darlun a'r weddi yn dwyn un arall o ferched Mon,—Buddug a'i gweddi a'i gwaith,—i'r meddwl.

Merch oedd Catherine J. Prys i Robert ab Ioan Prys (*Gweirydd ap Rhys*), y llenor a'r hanesydd diflino, a Gras, ei wraig dawel a dwys. Ganwyd hi yn Llanrhyddlad, Gorff. 4, 1842. Hi oedd yr wythfed o'r plant, ac yr oedd ddwy flwydd yn iau na'i brawd athrylithgar Golyddan. Yr oedd yn blentyn hoffus a gobeithiol, ac yr oedd yn hoff o gân erioed. Darllennai lawer, yn Gymraeg a Saesneg, pan yn blentyn; yr oedd yn hoff o'r hen benhillion telyn; a gwnai ambell rigwm ei hun pan yn ddeg oed.

Yr oedd yn cystadlu pan yn ddeunaw oed. Cyn bod yn ugain yr oedd wedi ennill sylw fel amddiffynnydd anrhydedd ei rhyw dan yr enw Buddug. Urddwyd hi'n fardd gan Glwydfardd yn Eisteddfod Dinbych yn 1860.

Ionawr, 2, 1863, ymbriododd â Mr. Owen Prichard (*Cybi Velyn*), un o'r un gariad at gân a gwneyd daioni.

Y tu allan i waith rhai o'i theulu athrylithgar ei hun, y mae'n debyg mai Ann Griffiths ac Islwyn a efrydai gysonaf. Nid anghofir hi gan neb a'i clywodd yn darllen ei theyrnged i athrylith Ann Griffiths i'r llu o bobl Maldwyn oedd wedi dod i Lanfyllin i ddathlu canmlwyddiant eu hemynyddes.

Am y gwllith, a hirddydd tawel, a blodau gardd y meddylir wrth ddarllen caneuon Buddug. Y maent yn bur fel y goleuni, yn naturiol fel nant y mynydd. Cân gwraig garedig, ddwys, a duwiol, tra wrth ei gwaith, ydyw'r gân. Wrth edrych ar hirddydd haf ger gwely ei mam glaf y canodd "O na byddai'n haf o hyd." Wrth feddwl am ei dosbarth yn yr Ysgol Sul y canodd,—

"Gallaf edrych yn eich wyneb,
Edrych arnoch yn ddi-fraw;
Ysgwyd dwylaw mewn anwyldeb
Yn y tragwyddolfyd draw."

Tra bo chwaeth yn bur yng Nghymru, tra bo serch at fam a chwaer, tra gwelir tlysni bywyd rhian a gwraig, ni ollyngir dros gof awen lednais, dyner, a charedig Buddug.

Rhagymadrodd.

5

Bu farw'n dawel, Mawrth 29, 1909; rhowd hi i huno ym mynwent Maes Hyfryd, Caergybi; ar ei bedd rhowd cerrig gwynion glân a cholofn o farmor gwyn. Adroddwyd ei hanes gan R. Mon Williams (*Cymru*, cyf. xxxix., 223); ond ei chofadail oreu yw ei Chaniadau, gasglwyd gan ei phriod yn 1909, mewn hiraeth am dani.

OWEN EDWARDS.

Llanuwchllyn, Rhag. 23, 1910.



DARLUNIAU.

BUDDUG. O wawl arlun. .. *Wyneb-ddarlun.*

“Cofiwch fy nghyfarfod yno
Pan y del eich awr i ben.”

HAF O HYD I wynebu tud. 9

O ddarlun gan W. W. Goddard.

CRANOGWEN. O wawl arlun .. I wynebu tud. 24

“Dy ryfedd hyawdledd, a’th ddwys dduwiolfrydedd,
A’th ddoniau gwahanol, enillodd fy serch.”

YR EHEDYDD I wynebu tud. 33

“Mwyniant rhagorach a ddygir
Gan adar a blodau i mi.”

YNYS LAWD I wynebu tud. 65

O ddarlun H. Gastineau.

“Cadw draw! Neu gwae dydi,
Forwr dewr ar gefn y lli.”

SIR FON I wynebu tud 80

Darlun gan S. Maurice Jones.

“Ac megis seren mewn gogoniant gwyn yw Mon.”

Y FRONFRAITH II2

“Tant y fronfraith fwynber,
Dan awel gwanwyn dyner.”

CYNHWYSIAD.

	<i>Tud.</i>			<i>Tud.</i>
O na byddai'n haf o hyd ..	9	Trydydd ar ddeg o Dach-		
Boreu oes	10	wedd	45	
Bythynod gwynion Gwalia	11	Y deigrin	47	
Mis Ionawr	12	Margaret	48	
Olwynion amser	13	Hafod Lon	49	
I ferch ieuanc yn ei Beibl	13	Fy nosbarth	50	
I farwel, aeaf blin.. ..	14	Cysur	51	
Blodyn yr Eira	15	Ar dderbyniad darlun ..	52	
Ar dderbyniad Beibl ..	15	Pen blwydd Olwen ..	53	
Ar dderbyniad pwysi o		Ruth	54	
llac	16	Y weddw	55	
Nodyn cynta'r tymor ..	17	Ymadawiad cyfeilles ..	59	
Neges y blodeuyn	18	Cartref	59	
Y bachgen Iesu	19	Ar farwolaeth Jane		
Y deigrin	21	Catherine	60	
Y cwpan	22	Mewn album	60	
Cennad y donn	23	Ar briodas	61	
Cranogwen	24	Miss A. J. Davies	62	
Menedd Prydain Fawr ..	25	Huno yn yr Iesu	63	
1905	26	Iesu yn agos.. .. .	64	
Blodau ac adar	27	Fy ngwlad	65	
Tyred i Gymru	28	Mewn album	65	
Can y Jiwibili (1887) ..	29	Gwawr	66	
Beth yw cariad?	30	Cenhadwr y Morwyr ..	67	
Irrwydr Dirwest â Bacchus	31	Morwynig fach o'r Bala ..	69	
Noddfa a nerth	32	O fe fydd yn haf o hyd ..	70	
Yr amddifad	33	Boreu Gwanwyn	71	
Croes	34	Dirwest	72	
Cydymdeimlad	35	I chwaer yn ei chystudd..	73	
Pechod	36	Ann Griffiths	74	
Yr Ynys Lawd	37	Gwawr (dyfyniad).. ..	75	
Ionawr eto	38	Aralleiriad (<i>The Daffodils</i>)	77	
Mefus a Hufen	39	Ar briodas	78	
Yr "hen" Ann Griffiths..	39	Miriam fach.. .. .	79	
Caru yr Iesu	40	Enw'r Iesu	80	
Mis Tachwedd	41	Fy anwyl ffrynd	81	
Neges deilen	41	Cyfarchiad priodasol ..	82	
Gyda'r tannau	42	Ar ymadawiad cyfaill i'r		
Joseph yn hysbysu ei hun	43	America	83	

	<i>Tud.</i>		<i>Tud.</i>
Canu yn oes oesoedd ..	84	Golyddan yn ei gystudd ..	101
I'r bardd J. T. Job ..	85	Ymson uwch bedd	
Anogaeth i ferch ieuanc		Golyddan ..	102
ganu	86	Gwalia	103
Priodas	87	Cymro mewn gwlad es-	
Cerdyn Nadolig	88	tronol	104
Aros yn yr Iesu	88	I ferch ieuanc	105
Neges John	89	Y bedd	106
Coffa	90	Cariad gwraig y medd-	
Sambo a'r bibell	91	wyn	107
Digon yw	92	Iesu Grist	108
Yr eneth a'r gasgen ..	93	Heddyw ac yfory	109
Helpu Iesu Grist	95	Alice ar ben ei blwydd ..	110
I'r ferch amddifad ..	96	Mewn Beibl	110
Colli John	97	Heddwch	110
I m hoff gyfeilles	98	Buddug yn ei chystudd (ei	
Y goleudy	99	hemyn olaf)	111





“O na byddai'n haf o hyd.”



CANIADAU BUDDUG.

O! NA BYDDAI'N HAF O HYD.

O! NA byddai'n haf o hyd,
Awyr lân uwchben y byd,
Haul goleulan yn tywynnu;
Adar mân y coed yn canu,
Blodau fyrdd o hyd yn gwenu,
O! na byddai'n haf o hyd.

O! na byddai'n haf o hyd,
Dydd diderfyn ar y byd;
Anian mewn perffeithrwydd gwisgoedd,
Bywyd ar bob dalen bythoedd,
Ninnau'n ieuanc yn oes oesoedd;
O! na byddai'n haf o hyd.

O! na byddai'n haf o hyd,
Gaeaf mewn tragwyddol gryd:
Neb yn ofni tywydd garw,
Neb mewn poen, na nychdod chwerw,
Neb yn cwyno, neb yn marw!
O! na byddai'n haf o hyd.

BOREU OES.

BOREU einioes. O! brydferthwch,
 Eres harddwch, blodau'r byd :
 Ceinion natur ymgynghreiriodd,
 I gyfarfod yma 'nghyd :
 Gwylia'n eiddigeddus drosto
 A dilychwin lygad moes,
 Rhagymadrodd tragwyddoldeb
 Ydyw cyfnod boreu oes!

Pennod fawr yw tragwyddoldeb,
 Raid ei darllen yn ddiâu :
 Ac ar ddiwedd pob tudalen,
 Ceir y geiriau "I'w barhau;"
 Cofia fod a fynno'th fuchedd
 Ym moreuddydd einioes wiw
 A chyhoeddi'r gyfrol bwysig
 Leinw'th fryd tra fyddo Duw.

Amser ydyw'r memrwn rhyfedd,
 Dan oleuni gwyneb Ner,
 Sydd yn derbyn argraffiadau
 Welir pan y syrth y ser :
 Pan gyhoeddir Amser drosodd,
 Pan f'o haul a lloer yn sarn,
 Adlewyrchir y gweithredoedd
 Yno'n fyw ar furiau'r farn.


Ti wr ieuanc, aros ennyd,
 Uwch gweithredoedd ienctyd cun,
 Dod dy lyfr i'w adolygu
 I Awdwr iachawdwriaeth dyn :
 Yna'n eofn yn dy yrfa
 Dos hyd derfyn dyddiau'th daith,
 Ni raid ofni haul byd arall
 I dywynau ar dy waith.

BYTHYNOD GWYNION GWALIA.

FEL addurniadau arian,
Puredig gan y tân,
Yw ein Bythynod Gwynion,
Ar fynwes gwlad y gân :
Awgrymant am y purdeb,
Feithrinir mewn cywirdeb ;
Ar liniau gwiw moesoldeb,
O fewn eu muriau glân.

Ymffrostied beilch estroniaid,
Mewn adeiladau drud,
Cyfodant uchel dyrau,
I roi eu serch a'u bryd ;
Ymffrostiwn ninnau'n eon,
Yn ein bythynod gwynion,
Lle megir egwyddorion ;
A bery'n hwy na'r byd.

Fe wylodd claer angylion,
Lu o'r anneddau hyn ;
Fe safodd anfarwoldeb
Uwch aml fwthyn gwyn ;
Parhaed teg wenau Gwynfa,
Yn nawdd ac amddiffynfa,
Bythynod Gwynion Gwalia,
Tra haul a môr a bryn.



MIS IONAWR.

MAE'R adar yn dechreu canu,
 Ar frigau y goedwig lom;
 Tithau, cod galon i fyny,
 Er fod dy galon yn drom,
 Chwilio am nodau ei garol,
 Y mae yr aderyn mwyn,
 Gollodd yn nhywydd gaeafol
 Y llynedd, ynghwr y llwyn.

Buan y daw yr awelon
 Dros emrynt y gwanwyn syw,
 Gweithiant eu tannau yn dynion,
 Dyhidlant yn odlau byw;
 Tremiad yr heulwen a ddeffry
 Alawon uwch llwyn a nant,
 Yn asbri y chwaon chwery
 Eu rhyfedd berorol dant.

Tithau, os collaist dy gywair,
 Mewn trallod a thywydd blin;
 Na foed i'th alar roi anair
 I heulwen rhagorach hin:
 Dyrcha dy olwg i fyny,
 O gyrraedd y llwyni a'r llawr,
 Dyna rydd fodd i ti ganu,
 Edrych yn llygad y wawr.



OLWYNION AMSER.

TROI yn gyflym maent o hyd,
 Ninnau ar y cantau'n mynd;
 I ba le, fy anwyl ffrynd?
 I ryw hafan dawel glyd.

Troed olwynion amser mwy,
 Cadwn ninnau olwg fry,
 Ni raid ofni rhwystrau lu,
 Trocant faint a fynnon hwy.

Taflant un o donn i donn,
 Canwn ninnau ar y brig,
 Collodd brig y donn ei dig
 Yn ol troed ein Ceidwad llon.



I FERCH IEUANC YN EI BEIBL.

CROG y llusern fendigedig
 Uwch dy lwybr man lle'r âi;
 Wrth ei llewyrch perffeithedig
 Cerdd yn fanwl a di fai;
 Pan yn tynu'th draed i farw
 Ei phelydrau gwerthfawr fydd
 Yn goleuo t'w'llwch garw
 "Cysgod angau" 'n foreu ddydd.



FFARWEL, AEAF BLIN.

FFARWEL, ffarwel aeaf blin,
 Ffarwel ddu dymhestlog hin :
 Hardd delynau hoew anian,
 Ar yr helyg fu yn hongian,
 Ond daw amser gwell yn fuan,
 Yna ffarwel, aeaf blin.

Ffarwel, ffarwel aeaf blin,
 Tyred hyfryd hafaidd hin,
 Gwened haul i adgyfodi,
 Ysbryd Duw i adnewyddu,
 Gwyneb anian i adlonni,
 Yna ffarwel, aeaf blin.

Ffarwel, ffarwel aeaf blin,
 Tyn y gwanwyn teg dy fin ;
 Cân yr adar sy'n adgofio
 Fod yn amser dy ffarwelio,
 Paid yn wir a brysio eto,
 Ffarwel, ffarwel aeaf blin.

Daw er hynny aeaf blin ;
 Ac ofnadwy arw hin ;
 Nad oes ond y nef awelon
 All liniaru'r stormydd creulon,
 A rhoi nerth i ddweyd yn eon,
 Ffarwel, ffarwel aeaf blin.



BLODYN YR EIRA.

BLODYN gwyn yr eira glân,
Ydwyt destyn cu i'm cân :
Mae dy hedd yn ymdywynnu,
Mae dy wyneb fel goleuni ;
Heb frycheuyn du na chrychni,
Arian wedd yr eira mân.

Gwyn a glân wyt, flodyn cain,
Gwynnach nac un llian main :
Megis alaw yr aderyn
Cyntaf glywir yn y gwanwyn,
Ydwyt tithau, deg flodeuyn,
Swyn rhyfeddol sydd i'r rhain.

Blodyn glân yr eira gwyn,
Testyn cân o bridd y glyn ;
Rhwymau tynion rhew ac eira,
Anian ynnot ymagora'n
Fywyd newydd wedi hyn.



AR DDERBYNIAD BEIBL.

BOED ei Awdwr yn arweinydd,
Trwy'r anialwch dyrus blin ;
Ei gynwysiad baro imi,
Fynych, fynych blygu glin ;
A phan ddelo awr ymfudo,
Boed ei addewidion per
Yn adenydd im ehedeg
At f' Anwylyd uwch y ser.

AR DDERBYNIAD PWYSI O LILAC.

“Ti wyddost beth ddywed fy nghalon,”
 Am bwysi o flodau mor hardd;
 A draethant mewn ffraethder mor wiwlon,
 Iaith enaid, iaith calon, iaith gardd;
 O’r ffasiwn nid ant yn oes oesoedd,
 Hen flodau adwaenai fy nain,
 Maent heddyw mor newydd a’r nefoedd;
 Mor ddenol, mor gywir, mor gain.

Ni welir anwylach na’r lilac,
 O’r Ddyfrdwy hyd Fenai ddi fai;
 Ni wenodd erioed ei ragorach,
 Er teced holl flodau mis Mai;
 Pan ydoedd cariadau Paradwys
 Yn rhodio dan gangau y coed,
 Diameu fod hwn yn ymarllwys
 Persawredd tro cyntaf erioed.

Mae’n debyg mai gwyn oedd pryd hynny,
 Cyn dyddiau yr enfys a’r gwlaw;
 Cyn pechod liw porphor i ddenu,
 A llenwi Gardd Eden â braw;
 Na hidiwn os cafodd y lilac
 Baradwys heb ’sgarlad yn bod,
 Cawn ninnau un arall berffeithiach,
 Cyn laned a gwynned a’r ôd.



NODYN CYNTA'R TYMOR.

MAE bronfraith gynta'r flwyddyn
 Yn pyncio ar y brigyn
 Wrth glywed hon, a'i halaw lon
 Anghofia'r fron ei phigyn,
 Mae'r gaeaf du yn cilio,
 A'r stormydd ar noswyllo,
 A heulwen braf,
 Yn awgrym gaf,
 Fod hirddydd haf ar wawrio.

Mae cân y fronfraith dirion,
 Uwch mynwent ei chyfeillion,
 Yn dweyd yn awr, uwch beddau'r llawr,
 Y tyrr y wawr yn union :
 Mae nodyn cynta'r tymor,
 Yn galw myrdd yn rhagor ;
 Gobeithion gwyn,
 O lawr y glyn,
 Ddechreuant syn ymagor.

Bedyddir dôl a dyffryn,
 Gan fywyd gwyneb blwyddyn,
 A dwg i'r lan, o'r eira cann,
 Yr eiddil gwan eginyn ;
 Ti fendigedig fywyd,
 Agori feddau'r gweryd,
 O! enaid clyw,
 Cei dithau fyw,
 Cyhyd a'r Duwdod hefyd.

Mae tant y fronfraith fwynber,
 Dan awel gwanwyn dyner
 Yn wir yn dwyn im ryfedd swyn
 A'i seiniau mwynion syber ;

Mae salm yr adgyfodiad
 Ar fin pob gwan flaen-darddiad,
 Ac yn eu gwaith 'rol gaeaf maith
 Cyhoeddant iaith traddodiad.



NEGES Y BLODEUYN.

'Rwy'n anfon y blodeuyn
 I siarad dros of fi;
 I gario serch fy mynwes lawn,
 Yn uniawn atat ti:
 Gwrandawer ei ystori,
 Mewn iaith berswynol glir,
 Nis gall athrylith blodau'r ardd,
 Ond hardd fynegi'r gwir.

Fel perarogledd hyfryd,
 Yw serch o galon iach;
 Anfonaf finnau ran ddial,
 Rhwng dail y blod'yn bach:
 Bydd marw hwn yn ebrwydd,
 Edwina'r coch a'r gwyn,
 Ond bydd ei genadwri dlos
 Yn aros wedi hyn.

Gobeithio byddwn ninnau,
 Fel blodau teg eu gwrid,
 Yn cwblhau ein gwaith mewn hedd,
 A pherarogledd prid;
 Bydd raid i minnau farw,
 Ond marw i ddechreu byw,
 O! am gael bod yn rhai a dardd
 Yng ngardd paradwys Duw.

Y BACHGEN IESU YMYSG
Y DOCTORIAID.

(*Buddugol*).

Y BACHGEN Iesu! dyna dant!
A dery'n fyw ar glust dynoliaeth;
Gall bysedd bychain bach y plant
Ymgydnabyddu â'r gerddoriaeth;
Pa le mae'r fam na fu erioed
Mewn pryder chwerw am ei phlentyn?
Rhoed drem yn ol i ddeuddeg oed
Yr Hwn orchmynodd fod pob blwyddyn.

Oes neb a ddywed wrth y bach,
Am gofio'i fod ymysg y doethion?
Am gofio ei iselradd âch,
A gwyllo ar ei ymadroddion?
Mae holl adnoddau dysg a dawn,
Yn ymgyfarfod yn y ddinas;
A'r byd yn rhoi gwarogaeth llawn,
I ddysgedigion bri ac urddas.

Ond, dacw'r Bachgen gwylaidd mât,
Yn holi ac yn gwrandaw arnynt,
Nes synnu prif ddoctoriaid gwlad,
Ac agor eu golygon iddynt:
Pa ryfedd? Onid gair yr Un
Agorodd emrynt mawr y wawr-ddydd?
Pa ryfedd? Onid anadl ffun,
Yr Hwn sy'n agor bywyd beunydd?

Mor debyg yw i'n bechgyn ni,
Ond hynod iawn ymysg doctoriaid;

Ni welent hwy er maint eu bri
 Ddim Duw o dan amrantau'i lygaid;
 Pan godai'i fys uwchben y ddeddf,
 A'i gwisgo â goleuni trwodd,
 Ni welent hwy mo'r ddwyfol reddf
 A redai drwy y bys a'u creodd.

Hwy synnent at ei fawredd Ef,
 Fe synnaf finnau'i fod mor fychan!
 Yr Hwn a daenodd ddae'r a nef,
 A'i ddeall, fod mor hynod egwan!
 P'odd gallodd anherfynol Fod,
 Ymwasgu 'rioed i'r fath gyfyngder?
 Ymguddio mewn rhyw ddeuddeg oed,
 O ryfedd wyrthiol Anfeidrollder!

Pan ddirwyn Duw holl flwyddi'r byd
 Fel pelen fawr o gylch ei fysedd;
 A'u hyrddio i'w diddymol gryd,
 I'r tragwyddoldeb pell di-ddiwedd;
 Cawn wybod gan yr Iesu glân
 Pam rhoes ef ddeuddeng mlwydd am
 dano,
 Mae'n debyg iawn cawn destyn cân
 Na dderfydd byth ddadseinio honno.



Y DEIGRYN.

Ni raid it gywilyddio,
Na chuddio'th wyneb llaith
Oherwydd colli dagrau,
Na phlygu'th ben ychwaith :
Os ydyw'r byd yn galed,
Yn curo arnat ti,
Cei wylo deigryn distaw,
Ni watwar byth dy gri.

Y Duw a roes Orion,
I hongian yn y nen ;
A'r myrdd defnynau gloewon,
Mewn cwmwl uwch fy mhen :
A glymodd wlith y rhosyn
Sy'n tyfu wrth fy nrws ;
A rwymodd deimlad benyw
Mewn deigryn bychan tlws.

Ynghanol cwmni ofer,
A welwch chwi y llanc
Yn gwario ei holl eiddo
I geisio porthi 'i wanc?
Ond yn y bri a'r gloddest,
Fe gofia'n sydyn am
Y dagrau oedd yn halltu
Hoff ruddiau'i anwyl fam.

Merch ieuanc deg a heinyf,
Fel llestr ar y donn,
Brysura i'r peryglon
Heb ofnau dan ei bron :

Caniadau

Ond cododd awel iachus,
 A'i chalon roddodd lam,
 Pa fodd y gallai groesi
 Môr dagrau'i hanwyl fam?

Os gweli ddeigryn bychan,
 Yn llygaid unrhyw un,
 Ni raid it ofni hwnnw,
 Mae ganddo deimlad cun;
 Mae fel yr aur deyrnwialen,
 Yn llaw y brenin sydd,
 Cyffyrdda'n eon ynddi,
 Y peth a fynni fydd.

Os wyt yn dlawd ac unig,
 Mewn gwyntoedd croes c hyd,
 Cei gysur a diddanwch
 Tra deigryn yn y byd;
 Cei gofio mewn tawelwch,
 Tra'n llawn o ofid trist,
 Am gydymdeimlad anwyl
 Sy'n nagrau Iesu Grist.



Y CWPAN.

YFODD Iesu gwpan pechod
 Hyd y gwaelod drosot ti;
 Troes y gwenwyn yn y gwaddod,
 O anfeidrol rin i ni.
 Bellach, cwpan gwledd wastadol,
 Yw i deulu Seion Duw;
 Gwin y Cariad anorchfygol
 Ynddi sydd i ddynol ryw.

CENNAD Y DONN.

AR noson serog dawel
Gan syllu tua'r gorwel,
Y rhodiai geneth heinyf lon,
Mor ysgafn fron a'r awel;
Ym merw eu difyrion,
Gadawodd ei chymdeithion,
Er mwyn cael bod ynghwmni iach,
Y cregin bach a'r eigion.

Y lloer oedd yn disgleirio,
A'i chalon hithau'n dawnasio,
I fwsig per y graian glân,
A'r tonnau mân yn tiwnio;
Ehedai ei myfyrion,
Dros nwyfus donnau Neifion,
Ac aent yn union megis saeth,
At un a aeth a'i chalon.

Mae cusan felus, felus,
Ei morwr ar ei gwefus,
Gafaela megis angor serch,
Ym mron y ferch hyderus;
Dywedodd wrth ffarwelio
Y deuai ati eto,
Sibrydai hithau y'nghlust y donn,
Am fod yn dirion wrtho.

Ond Ha! y donn anhydyn,
Beth ddygi ar dy frigyn?
Mae angeu yn dy fynwes ddofn,
A braw, ac ofn a dychryn;
Ar ddannedd certh y creigiau,
Mae'r llong yn fyrdd o ddarnau,

Ac aberth i'r rhyferthwy frad
 Ei hanwyl gariad hithau!

* * * *

Y llanc ysgrifennodd ei dynged ei hun,
 A chostrel a'i dygodd i ddwylaw ei fun!
 Llewygodd yr eneth, a'r saeth yn ei bron,
 Trywanwyd ei henaid gan gennad y donn.

Mawr ydyw dirgelwch ofnadwy y môr;
 Ond mwy ydyw gallu Anfeidrol yr Ior;
 Efe sydd yn gwylio curiadau pob bron,
 Efe ydyw awdwr tynghedfen pob tonn.

Efe a droes estyll marwolaeth oer erch,
 Yn gerbyd i ddychwel cariad-lanc y ferch,
 Y bachgen ddaeth yno i'w gwasgu i'w fron,
 Rhoes Arglwydd y storom y gennad i'r donn.



CRANOGWEN.

'Rwyf bron a'th addoli, anfarwol Granogwen,
 'Rwyf wedi fy synnu, a'm swyno yn lân,
 Y mae dy athrylith a'th awen ddisgleirwen,
 Yn twymo fy enaid—yn ennyn fy nghân.
 Dy ryfedd hyawdledd a'th ddwys dduwiol-
 frydedd,
 A'th ddoniau gwahanol enillodd fy serch:
 Pwy bellach faidd wadu nas gall arucheledd
 A mawredd meddyliol babellu mewn merch?



CRANOGWEN.

“ Pwy bellach faidd wadu nas gall arucheled
A mawredd meddyliol breswyllo mewn merch ? ”

SENEDD PRYDAIN FAWR.

TRA haul yn y ffurfafen,
 A môr mewn dwyfol gryd;
 A llygad yr Anfeidrol,
 A'i olwg ar ein byd;
 Boed deddfau Prydain anwyl,
 Tra bo Prydeinwyr byw,
 Yn gadarn sylfaenedig,
 Ar nerthol Air ein Duw.

Yn ofer aiff adeilad,
 Heb sylfaen gadarn gref;
 Ac hanes "tŷ y tywod"
 A fydd ei hanes ef;
 Os el di-ras anffyddwyr
 I'r Senedd, Brydain, clyw,
 Oferedd disgwyl llwyddiant
 Mewn gwlad lle nad oes Duw.

Dadleuir dros Ryddfrydiaeth,
 Er agor llydan ddôr;
 Ond nid oes borth creedig
 Gilgwthia ymaith Ior!
 Ar brydferth bren Crist'nogaeth,
 Y tyf ein rhyddid syw;
 A'r afon bair ei gynnydd
 A dardd o fynwes Duw.

Nid rhyddid fyddai gadael,
 Diniwed blentyn glân
 I chwareu yn ddiotal
 A'r cynheuedig dân:
 Nid rhyddid gadael plantos
 Northampton, druain, wyw,
 I gellwair gyda phethau
 Y sydd mor llawn o Dduw.

Ein Senedd yw'n gogoniant,
 A bri ein Senedd yw,
 Fod ynddi ddynion dewrion,
 Weithredant yn ofn Duw;
 Dirgelwch mawredd Prydain,
 Er aml groes a phair,
 Yw'r parch a delir ganddi,
 I'r Anffaeledig Air.

Na foed i'n sel ryfeddol,
 Ein gyrru mor ddi-ball,
 I sathru ar uniondeb
 Yngrym rhyw bleidiaeth ddall;
 Tynhaer rheffynau pechod,
 Anffyddiaeth gwaetha'i ryw,
 A bloeddiwn uwch Sant Stephan,
 "Yr Arglwydd, Ef sydd Dduw."



1905.

1905 sydd flwyddyn i'w chofio,
 Blwyddyn i'w chyfrif ar lechres y byd :
 1905. Mae'n werth ei chroniclo,
 Blwyddyn cynhaeaf eneidiau ynghyd :
 Blwyddyn i Grist gael rhifo ei deulu,
 Blwyddyn deheulaw Goruchaf yr Ior,
 Blwyddyn, er hynny, nas gall Ei ddiwallu,
 Nes dychwel y gweddill "o for i for."

BLODAU AC ADAR.

I GWMNI yr adar a'r blodau,
 I'r maesydd a'r dolydd ni awn :
 I yfed bendithion v bryniau,
 A ffrydiant fel nectar yn llawn ;
 Yr Awen sydd yno bob boreu,
 Yn sibrawd i glustiau y gerdd,
 A natur yn paentio ei goreu,
 Bob cangen a deilen yn werdd.

'Rwy'n hoffi'r aur melyn o Ophir,
 'Rwy'n caru enwogrwydd a bri,
 Ond mwyniant rhagorach a ddygir
 Gan adar a blodau i mi ;
 Gogoniant v ddaear yw'r blodau,
 Gogoniant yr awyr yw'r gân,
 Mae nefoedd yn wir yn yr odlau,
 Sy'n rhoddi fy mynwes ar dân.

Mae'r gaeaf i ddod gyda'i stormydd,
 I dewi holl adar y coed ;
 I wywo gogoniant ysblennydd,
 Y blodau prydfferthaf erioed ;
 Er hynny mae'r eos fwyneiddlwys
 I ganu dan fantell y nos,
 Ac ambell i flodyn pereidd-lwys
 I wenu ar feddrod y rhos.



TYRED I GYMRU.

Tyred i Gymru, anwylyd fy nghalon,
 Gwlad caredigrwydd a chartref y gân;
 Tyred yn ebrwydd, rho ffarwel i'r estron,
 Hiraeth am danat orfuodd yn lân;
 Croesaw a chariad â breichiau agored,
 Syn disgwyl dy dderbyn yn gynnes i'w côl,
 O! fel y dychlamai fy nghalon wrth weled,
 Fod gobaith cael derbyn fy ngwron yn ol.

Tyrd adref i Gymru, anwylyd fy nghalon,
 Gwlad caredigrwydd a chartref y gân;
 Tyred yn ebrwydd, rho ffarwel i'r estron,
 Hiraeth am danat orfuodd yn lân.

Tyred i Gymru, anwylyd fy nghalon,
 Cei groesaw mor gywir a mân wlith y nos;
 Tyred i Gymru, cei gusan dy Wenfron,
 Mor wresog a chusan yr heulwen i'r rhos;
 Canmil rhagorach yw symledd y brynïau,
 Ddyrchafant eu pennau gan gyfarch y nen;
 Na chelfyddydau yr estron a'i foethau,
 Mae gwenau y nefoedd ar Gymru wen.

Tyrd adref i Gymru, &c., &c.



CAN Y JIWBILI, 1887.

AR Ben urddasol Prydain Fawr,
Y torrodd hyfryd jiwbil wawr :
Cydganed pawb yn ddiwahan
Ei chlod mewn gorfoleddus gân,
Victoria fawr ei bri.

Cydganwn i'w rhagorion mad,
Ei henw da sy'n llanw'r wlad :
Croesawn yr egwyl euraidd hon,
A dyrchwn fawl fel tonn ar donn,
Victoria fawr ei bri.

Ei charedigrwydd hael y sydd,
Fel gemog wlith ar doriad dydd ;
A chura dan ei choron ddrud,
Y galon oreu yn y byd :
Victoria fawr ei bri.

Caiff goron arall cyn bo hir,
O berlau anfarwoldeb clir ;
Sef coron gras, o gariad byw,
Am wasanaethu dyn a Duw,
Victoria fawr ei bri.



BETH YW CARIAD?

BETH yw cariad? Gwlithyn hawddgar
 Yn tyneru calon flin;
 Beth yw cariad? Cawod hyfryd
 Yn adfywio llysiâu crin;
 Beth yw cariad? Sugndyniad,
 Myn ei wrthrych iddo'i hun,
 Cwlwm ydyw sy'n cysylltu
 Calon dau fel calon un.

Beth yw cariad? Rhosyn siriol,
 Blanwyd ym mharadwys wen,
 Ar lan afon bur y bywyd,
 Geidw byth i fyny'i ben:
 Beth yw cariad? Bwa amryliw,
 Yn awyrgylch Cristion gwan,
 Sydd yn cynnal nerth yr eiddil,
 Byth i fyny ymhob man.

Beth yw cariad? Byw wreichionen
 O'r hen "Fflam angerddol gref;"
 Afon angau byth nis diffydd,
 Mae'i gyflenwad yn y nef:
 Beth yw cariad? Allor, Aberth,
 Iachawdwriaeth i wael ddyn.
 Beth yw cariad? Beth yw cariad?
 Cariad ydyw Duw ei hun.



BRWYDR DIRWEST A BACCHUS.

YMARFOGWN, ferched dirwest,
 Wele ni mewn rhyfel fawr;
 Nid oes orffwys cyn cael concwest,
 Nid oes rhoddi arfau i lawr :
 Yngafaelion medd'dod creulon,
 Cymru anwyl sydd yn brudd;
 Dirwest dyrr y rhwymau tynion—
 Yn ei llaw fe ddaw yn rhydd.

Cadarn yw y ddiod feddwol,
 Dyn yn unig sydd yn wan;
 Byddin gref y llu dirwestol
 Sydd am ddwyn y llesg i'r lan;
 Merched glân ardaloedd Cymru
 Lusingir yn y llu i'r llaid;
 Dirwest wen a'u cwyd i fyny,
 Gweithiwn, gweithiwn yn ddibaid.

Ysgafn iawn yw rhwymau dirwest,
 Dim ond *peidio* yfed mwy :
 Dyna'n unig ydyw'r orchest,
Peidio, felly ni cheir clwy :
Peidio, ferched, dyna'r rhyfel
 Drosodd, heb ddim tywallt gwaed,
Peidio, dyna froydd tawel,
 A dynoliaeth ar ei thraed.

Peidio profi, *peidio* edrych,
 Dyna dd'wed y Gair yn groch;
 Gwylio rhag yr eilun wrthrych,
 Pan yr ymddanghoso'n goch :

O! mor goch yw ein haelwydydd,
 Gan y gwaed dywalltodd hwn,
 Bacchus greulawn—deyrn anedwydd,
 Rhwymwn di o dan dy bwn.

Mae yr arfau yn ein dwylaw,
 Ferched anwyl, gloewn hwynt;
Peidio yw eu henw hylaw,
Peidio yfed, dyna'r pwynt;
Peidio cym'ryd, *peidio* rhoddi,
 Laddai fedd'dod yn y fan,
 Bacchus druan foddai'n fuan,
 Ac ni welai byth mo'r lan.



NODDFA A NERTH.

NODDFA a nerth sydd yn ein Duw,
 Mae'r frwydr yn ei ddwylaw Ef;
 Noddfa a nerth, O! feddwyn clyw,
 Dyrchafa ato'n awr dy lef;
 Estyn ei fraich anfeidrol werth,
 Dyrchafwn ninnau weddi'r ffydd,
 Cysylltwn weddi yn y nerth,
 Daw'r gwannaf o'i gadwynau'n rhydd.

Concwest ni ddaw o'r dwyrain dir,
 Nac o'r anialwch cras-boeth nen;
 Nac o'r gorllewin chwaith yn wir,
 Duw sydd yn barnu, Ef sydd ben;
 O'i enau Ef, ein Duw a'n Tad,
 Rwym y cymylau, sych y môr;
 Gwaeddwn ar Dduw i sobri'n gwlad,
 Cydiwn ein llef wrth allu Ior.



YR EHEDYDD.

“Gogoniant y ddaear yw'r blodau,
Gogoniant yr awyr yw'r gân.”

YR AMDDIFAD.

PAN araf osodir yr olaf dywarchen,
 Fel clo ar y beddrod lle gorwedd dan gudd
 Y fam gyda'i phriod ym mynwes y ddaear,
 Gadewir amddifad i ochain yn brudd;
 A'i law gan yr estron yn wyw a chrynedig,
 A'i lygaid yn foddfa gan ddagrau di-rith,
 'Does wyr ond y nefoedd beth sydd gynwysedig,
 Mewn hylif mor buraidd a gloew a'r gw lith.

Fe gollodd y bychan sydd heddyw'n amddifad,
 Fendithion rhagoraf y ddaear i'r llwch:
 Fe gladdwyd pob gronyn o'i obaith a'i gariad
 Ym medd ei rieni dan lenni oer trwch;
 Try'n unig a gwelw ei wyneb plentynaidd,
 I'r byd am drugaredd ynghanol ei glwyf,
 Ond nid oes gan hwnnw ddim sydd fwy caru-
 aidd,
 Na chartref i'r truan yn Nhloty y Plwyf.

Ond, blentyn amddifad, beth pe gwybuasit
 Yr eiddo, sy'n eiddo mor gyfiawn i ti;
 Dy ddagrau llifeiriol yn fuan sychesit,
 Pe gallet ti gredu mor freiniol dy fri!
 Pan ydoedd yr arfau ar eirch dy rieni,
 A'u twrf yn anafu dy galon fel brath,
 'Roedd twrf gan guriadau Anfeidrol dosturi,
 Yn uchel ddiaspedain fod Tad i dy fath.

Pwy bynnag a feiddia ddirmygu'r amddifad,
 Mae'n meiddio yn erbyn un mwy nag yw ef,
 Pwy bynnag a fyddo'n ddiystyr o'i deimlad,
 Mae'n poeri yngwyneb Tywysog y nef;

O blentyn amddifad, yr wyt yn gyfoethog,
 Ti ydyw yr uchaf o bawb yn y wlad,
 Etifedd y ddaear a'r nefoedd doreithiog,
 Tydi biau'r cyfan, wyt blentyn dy Dad.



CROES.

Os wyt yn anwyl blentyn Duw,
 Yn treulio iddo'th oes :
 Dy etifeddiaeth ryfedd yw
 Y chwerw, chwerw groes.

Mae croes mor sicr yn y byd,
 A thelyn yn y nef ;
 Ond cofio'r Groes a gwyd dy fryd,
 A bwysodd arno Ef.

Na lwfrhaed dy galon wan,
 Mae Un fu'n fwy ei loes ;
 A cheir esboniad yn y man,
 Ar ddyrys drefn y groes.

Wrth gario'n iawn dy groes dy hun,
 Er trymed ydyw hi ;
 Cei fod dy ysgwydd dan yr un,
 A fu ar Galfari.



CYDYMDEIMLAD A'R PARCH. PETER
ELLIS, RUABON.

DAETH yn nos ar y briodas,
Er mor hirfaith fu y dydd;
Dirwyn wnaeth y brydles addas,
Bur, i ben; aeth hithau'n rhydd :
Rhydd i hedeg at yr Iesu,
Priod anwyl gwlad yr hedd;
Rhydd i roi ffarwel i'w theulu,
Hwythau'n rhwym wrth byrth y bedd.

Peidiwch dannod iddi hedfan
I awyrgylch gwlad ddiboen;
Peidiwch grwgnach iddi drigfan,
Yn y gwynfyd gyda'r Oen;
Peidiwch cwyno, os y tybiwch
Bydd ei hanthem hi yn hwy,
Pan ewch yno chwi ganfyddwch
Mai rhyw ddechreu byddant mwy.

Dechreu, ac ail ddechreu wedyn,
Bydd yr Haleliwia lân;
Nes y del ynghyd bob nodyn,
O'r gorthrymus fyd i'r gân :
Yna canu ac ail ganu,
Pechod wedi gado'r dôn,
Ni bydd yno ond emynu
Cynganeddion cariad Ion.

O! gobeithio fod rhyw nodau
Yn yr anthem fawr Amen,
Nas gall seraph pur na seintiau
Fyth eu seinio yn y nen :

O! ni gredwn fod telynau,
 Yno ymysg yr euraidd lu,
 Nas gall bysedd neb eu chwareu
 Nes i'r gwynfyd elom ni.



PECHOD.


TYDI yw hanfod anedwyddwch dyn,
 Tydi yw unig elyn Duw ei hun;
 Tydi yw awdwr poen holl gyrrau'r byd,
 Tydi a siglodd drallod yn ei gryd,
 Tydi a anadlodd dy ddifaol darth;
 A droes ogoniant Eden deg yn warth:
 Tydi sy'n tramwy megis cwmwl byw,
 Drwy nefoedd dyn i guddio gwyneb Duw,
 Neu fel rhyw ysbryd anweledig certh,
 Bron, bron gorchfygu'r byd yngrym dy nerth:
 Ond, pan anturiaist i Galfaria fryn,
 Cyrhaeddaist tithau eitha'th bwynt pryd hyn,
 Pan lymaist flaen yr erchyll bicell ddur,
 Bwriadaist i'r Anwylyd farwol gur,
 Tydi wenwynodd frigau tîrf y drain,
 Nes i'w Creawdwr waedu dan y rhain!
 Ond, yno gwelaf bendigedig ddydd,
 Y prynwyd ffordd i mi gael dod yn rhydd:
 Pwy byth all ddweyd y taliad drud a gaed,
 Pan yno'r Iesu Glân yn bechod wnaed?

YNYS LAWD (*SOUTH STACK*).

Ynys hynod, ynys hardd,
 Wyt yn deg i olwg bardd;
 Mae dy safle yn ardderchog,
 A dy seiliau yn ddiysgog,
 Creigiau certh yn ysgyrnygu,
 Tonnau geirwon yn ysgythru,
 Er dy fod ynghanol lli,
 Eto tawel ydwyt ti.

Ynys enwog, fawr dy fri,
 Cartref hedd yngrym y lli:
 Trochion gwyn y weilgi lasliw,
 A thangnefedd sydd yn ymliw;
 Yn dy gylch mae dyfrllyd feddau,
 Angau'n curo dy ystlysau;
 Eto tawel ydwyt ti,
 Er dy fod ynghol y lli.

Ynys ryfedd Ynys Lawd,
 Wyt i'r morwr ar ei rawd;
 Rwyd yn gwahodd y for wylan,
 Ynnot ti i wneyd ei thrigfan,
 "Cadw draw" i'r morwr heini,
 Ydyw neges dy oleuni,
 "Cadw draw" neu gwae dydi,
 Forwr dewr ar gefn y lli.



IONAWR ETO.

DYMA Ionawr newydd ini,
 Gyda newydd len,
 Beth a roddwn ninnau arni
 Ddeil oleuni'r nen?
 Mae'r llinellau oll yn union,
 A'r dalennau'n lân,
 Rhoddwn wiw ddymuniad calon,
 Rhoddwn fawl a chân.

Ionawr! Ti agori flwyddyn
 Gyfan ger ein bron,
 Agor ein calonnau cyndyn
 I ddaioni hon;
 Ionawr ieuanc, wyneb siriol,
 Er dan eira gwyn,
 Disgwyl 'rwyf y wên foreuol
 Ddaw a haul ar fryn.

Ionawr! Dan dy gwrlid trwchus,
 Y mae blodau fyrdd;
 Arogl anian yn bersawrus,
 Sy'n eu gwyn a'u gwyrdd:
 Boed i ninnau ymdebygu,
 Er bod weithiau 'nghudd;
 Daw yn adeg ymddadblygu
 Pan estynno'r dydd.



MEFUS A HUFEN.

Am y mefus melus cochion,
 'Rwyf yn diolch o fy nghalon :
 Huont i mi'n iachawdwriaeth,
 Well nac unrhyw feddyginiaeth.

Hefyd am yr hufen melyn,
 'Rwyf yn diolch yn ddiderfyn,
 Ond tuhwnt i'r moethau amheuthyn,
 Am y cariad sy'n eu canlyn.

Melus fefus yn fy nghlefyd,
 I'raidd hyfryd hufen hefyd,
 Ond melusach cydymdeimlad,
 A phereiddiach cywair cariad.

Darfod wnaeth yr aeddfed ffrwythau,
 Darfod wna pob peth fel hwythau :
 Ond yn aros mewn eneiniad
 Mae diddarfod ffrwythau cariad.



YR "HEN" ANN GRIFFITHS.

ANN GRIFFITHS. Pam yn hen?
 Nid oedd ond ieuanc oedran,
 Rhyw chwech ar hugain oedd pan aeth
 I'r bedd o Ddolwar Fechan!
 Bydd rhyw ieuenctyd byth
 Ar fynwent Llanfihangel,
 Nes daw ei chysegredig lwch
 I ateb yr archangel!

Meddyliau nefol hen,
 Mor hen a'r Hen Ddihenydd,
 A rodd yr emynyddes hon
 Mewn gwisg dragwyddol newydd;
 Gwirionedd dwyfol Duw,
 Fel sanctaidd dân yn ennyn;
 A gobaith i bechadur tlawd,
 Fel angor ymhob emyn.



CARU YR IESU.

'RWY'N siwr nad af i uffern drist,
 Yr wyf yn caru Iesu Grist;
 Ac nid a cariad byth i'r tân;
 Pe'r elai, fe ddiffoddai'n lân.

Ni âd fy Iesu i mi fynd,
 Mae ef a mi yn ormod ffrynd;
 Tra ynnof byddo'i gariad prid,
 Fe'm gweryd rhag pob erchyll lid.

Mae cariad Iesu'n gylch o'm tu,
 I'm cadw rhag gelynion lu;
 A'i gariad yn fy mynwes sydd,
 I'm cadw rhag pob drwg a fydd.

Yr wyf yn caru'r Iesu glân,
 Rhag i mi fynd i uffern dân;
 A mwy, 'rwy'n caru Brenin Nef,
 Am fod fy nghalon ganddo Ef.

MIS TACHWEDD.

Mis Tachwedd oerllyd llaith,
 Yn prysur wneyd ei waith,
 Ar ddail a dyn :
 Fe byla llawer gem,
 O dan ei awel lem,
 Marwolaeth ddwg ei drem,
 I lawer un.

Gan adar nid oes gerdd,
 Na'r goedwig ddeilen werdd,
 O! mae hi 'n nos :
 Mae'r ceinder wedi ffoi,
 Gerwinder yn ymdoi,
 A'r gaeaf yn ymgloi,
 Ar fill a rhos.

O brysia, heulwen chweg,
 Tyrd eto, dywydd teg,
 Gwyw yw pob gwedd ;
 Mae arnaf hiraeth trwm,
 A'm calon fel y plwm,
 O dan y dirfawr swm,
 O fyd a bedd !



MEGIS DEILEN.

MEGIS deilen y gwywasom,
 Megis deilen y syrthiasom,
 Megis deilen yw ein hynt ;
 Fel y ddeilen, byw am ennyd,
 Yna dygir ni mewn munud,
 Megis deilen gyda'r gwynt.

Gwyntoedd croch ein llym anwiredd,
 Arnom chwyth yn ddirugaredd,
 Pwy a'n cwyd o'r domen drwch?
 Gwaeddwn arnat, Iesu hawddgar,
 Gwisgaist ti bridd gwael y ddaear,
 Cofia'r tlawd sydd yn y llwch.

Geidwad dyn, mae gobaith eto,
 Er fel deilen i ni gwympo,
 Planner ni ar lan y lli,
 Afon cariad tragwyddoldeb,
 Dyna wyrddlas anfarwoldeb,
 Yno byth ni wywn ni.



GYDA'R TANNAU.

HOFF yw gennyf sain y delyn,
 Ar hyd y nos :
 Ymlid ymaith ofn y gelyn,
 Ar hyd y nos :
 Swynol ydyw ei pher seiniau,
 " Iaith (yr) enaid ar ei thannau,"
 Dyna'n fwyaf garaf finnau,
 Ar hyd y nos.

Mae fy nghariad ar y wen donn,
 Ar hyd y nos :
 Curo drosto mae fy nghalon,
 Ar hyd y nos :
 Boed i'r ser a'r lloer ei wyllo,
 Boed amddiffyn nefoedd drosto,
 Nes y delo adref eto,
 Ar hyd y nos.

“JOSEPH YN HYSBYSU EI HUN I'W
FRODYR.”

(*Buddugol*).

PORTREAD bywiol ar anfarwol ddail,
Edrychwch arno mewn dwfn synedigaeth;
A'r lliwiau'n osodedig bob yn ail,
Er mwyn egluro'r darlun i'n dirnadaeth,
Arlunydd sanctaidd, un o ddynion Duw,
Warantwyd fry yn uchaf gyfrin nefol,
Yn trochi'i bwyntil yn y dwyfol liw;
Yn gymlethedig wedyn gyda'r dynol.

A gwelwn ddynol tlws—mor hynod dlws,
Yn nagrau Joseph yn y darlun,
Mae'r argae ryfedd hon yn agor drws
Teimladau pur, i redeg dros y terfyn;
A chlodant gyda hwy y brad a'r llid
Ddangoswyd ato gan gyfnesa'i galon;
Ac ynddynt, wele, iachawdwriaeth brid,
Yn ymddylifo iddynt megis afon.

Mae'r llinell arall, Ha! yn dywell ddu,
Nis gallwn ni ddim treiddio trwy ddwyfol-
deb:
Nis gallwn weld *caethiwed* bachgen cu,
A darllen yno *ryddid* yn ei hwyneb;
Nis gallwn weld hebryngiad dirgel Duw,
Drwy d'wllwch pechod a dyfeisiau dieflig,
Nis gallwn weld ei lwybr, dyrys yw,
Yn troi y felldith erch yn fendigedig.

Ond gallwn ninnau hwylio'n llestri bach,
 Hyd foroedd cariad Joseph at ei deulu;
 Pan holai am ei dad, ai byw ac iach?
 Pan syrthiai ar eu gyddfau i'w cusanu;
 Pan fethodd ag ymatal ddim yn hwy,
 Gorch'mynodd allan bawb o'i bresenoldeb,
 A'i galon fawr faddeuol bron yn ddwy,
 Gan orlawenydd serch ac angerddoldeb.

Ond Och! Ofnadwy adgyfodiad ddaeth,
 Heb ganiad udgorn, ac heb lef archangel;
 Euogrwydd gwerthu'r gwirion oedd fel saeth,
 Anelog i'w teimladau mwyaf dirgel:
 Er y gorweddai ugain mlynedd maith
 Fel maen seliedig ar eu herchyll gamwedd,
 Cydwybod wedi deffro ar un waith,
 A'i treiglodd ymaith megis peth disylwedd.

“ Na chollwch amser,” medd eu hanwyl frawd,
 “ I ddigio dim nac edliw i'w'ch eich hunain;
 Nid damwain ydoedd hyn, na, na, nid ffawd,
 Ond Duw drwy bopeth ydoedd yn fy arwain.”
 Ac nid yw hyn ond eiliw hynod wan,
 O'r Sylwedd mawr ac Awdwr Iachawdwr-
 iaeth

I godi'r euog damniol tlawd i'r lan,
 A chadw bywyd rhag yr ail farwolaeth.



TRYDYDD AR DDEG O DACHWEDD.

*Priodas Euraidd "Gweirydd ap Rhys" a
Mrs. Gweirydd. 1875.*

MAE hanner cant yn seinio'n hir,
Wrth edrych drwodd i'r dyfodol;
Ond gwelir hwynt yn ddigon clir,
Fel eiliad bychan yn y gwrthol;
Mae'n debyg iawn fod dail yr haf
I'w gweld fel heddyw'r adeg honno,
A Thachwedd megis teyrn y claf,
Yn trawsfeddiannu'r oll i'w gwywo.

O! Dachwedd, 'rwynt yn ber a sur,
Yr wyt yn eli ac yn ddolur!
Yr wyt yn peri poen a chur,
'Rwynt hefyd wedi bod yn gysur;
Mae'n ddydd a gofir gennym oll,
Mewn tristwch prudd ac mewn gorfoledd;
Pa un o honom yrr ar goll
Byth, byth y tri ar ddeg o Dachwedd?

Y tri ar ddeg o Dachwedd oedd
Y dydd i mam anadlu gyntaf;
A dyma'r dydd y gwnaeth yn g'oedd
Ei hateb i fy nhad "Cymeraf;"
Y dydd y rhoddwyd ar ei bys
Arwyddlun bywyd priodasol:
Y dydd y gwnaethpwyd yr "Ap Rhys"
Yn ffyddlawn wr i "Gras Ataliol."

Wel, hanner cant i heddyw oedd
Yr adeg fendigedig honno;
Pe gallwn rhoddwn uchel floedd,
Hwre! Hwre! nes bo'n dadseinio,

Dros Ben y Foel a Phen y Garn,
 Mynyddoedd enwog plwyf Llanrhyddlad,
 Nid oes ond goleu dydd y Farn
 Ddadblyga'n hollol ffrwyth yr uniad.

Yr oeddym ni yn naw o blant,
 Ar aelwyd ddedwydd ein rhieni:
 Ond ha! Mae bysedd hanner cant
 Yn gwneyd grymusder mewn dufenu;
 Aeth dau i'r nef heb deimlo grym
 Llawenydd byd, na'i ddygn ruddfan,
 A thri ar ddeg o Dachwedd llym
 A gipiodd ymaith ein Golyddan.

Mae'i fedd yn wyw yn Nyffryn Clwyd,
 Ond gwyrdd, ond gwyrdd yw'r cof am
 dano;
 Pe buasai rhin mewn dagrau brwd,
 Fe gawsai'i gadw heb edwino!
 Ond ymdawelwn, gan fod dydd,
 Cyn treigla hanner cant i heddyw,
 Y cawn gyfarfod oll yn rhydd,
 Ar fryniau hyfryd bro ddiledryw.

Hawddamor, anwyl fam a thad,
 Ar ddydd eich teg briodas euraidd;
 Ni chaed gwell rhiant yn y wlad,
 Nac unrhyw deulu mwy caruaidd;
 Boed ter belydrau nefol fro,
 Yn ymlid ymaith bob rhyw gaddug,
 Am amser maith cyn mynd i'r gro,
 Yw gweddi a dymuniad Buddug.

Y DEIGRYN.

(Buddugol).

HA! dyna fe, yr hylif prydfferth drud,
 Mor fychan yw! ac O! mor hynod fawr!
 Pwy sydd all ddirnad ei hyawdledd mud,
 Mor anorchfygol yw a thoriad gwawr!
 Ymguddia yng nghil llygad baban bach,
 Rhy wan y rhaiadr i'w gymharu ag ef!
 Pwy sydd all ddweyd ei ryfedd, ryfedd âch,
 Ei nerth symuda Dduwdod yn y nef!

Gabriel, tydi archangel Gwynfa lân,
 'Rwyt ti yn byw yn ymyl gorsedd Duw,
 A wyddost ti am destyn tlws fy nghân?
 Y Deigryn, ie, deigryn, dyna yw,
 'Rwyt ti'n cael mwydo'th esgyll gwynion mawr
 Ynghanol y gogoniant perffaith wyn:
 Cei gennad weithiau i roi tro i'r llawr,
 Difera, i leithio y penhillion hyn!

Dychmygaf glywed Gabriel yn dweyd im,—
 "Nid ydwyf fi yn gwybod fawr am hwn,
 Nis gallaf ddwedyd pa beth yw na dim,
 Nid oes un deigryn yn y nef a wn:
 Ond mae rhyw drydan rhyfedd ynddo'n wir,
 Pan fyddo un o blant fy Nuw ar lawr,
 A'i edifeirwch yn ei ddeigryn clir,
 Mae'n gallu'r ffordd i'r nef mewn munud
 awr."

Mae byd o ofid yn y deigryn prudd—
 Mae môr o deimlad yn ei gynnwys drud—
 Mae cenllif gorwyllt cariad ynddo 'nghudd,
 Llawenydd lifa dros ei geulan glyd;

Dros Ben y Foel a Phen y Garn,
 Mynyddoedd enwog plwyf Llanrhyddladd,
 Nid oes ond goleu dydd y Farn
 Ddadblyga'n hollol ffrwyth yr uniad.

Yr oeddym ni yn naw o blant,
 Ar aelwyd ddedwydd ein rhieni :
 Ond ha! Mae bysedd hanner cant
 Yn gwneyd grymusder mewn dufenu ;
 Aeth dau i'r nef heb deimlo grym
 Llawenydd byd, na'i ddygn ruddfan,
 A thri ar ddeg o Dachwedd llym
 A gipiodd ymaith ein Golyddan.

Mae'i fedd yn wyw yn Nyffryn Clwyd,
 Ond gwyrdd, ond gwyrdd yw'r cof am
 dano ;
 Pe buasai rhin mewn dagrau brwd,
 Fe gawsai'i gadw heb edwino!
 Ond ymdawelwn, gan fod dydd,
 Cyn treigla hanner cant i heddyw,
 Y cawn gyfarfod oll yn rhydd,
 Ar fryniau hyfryd bro ddiledryw.

Hawddamor, anwyl fam a thad,
 Ar ddydd eich teg briodas euraidd ;
 Ni chaed gwell rhiant yn y wlad,
 Nac unrhyw deulu mwy caruaid ;
 Boed ter belydrau nefol fro,
 Yn ymlid ymaith bob rhyw gaddug,
 Am amser maith cyn mynd i'r gro,
 Yw gweddi a dymuniad Buddug.

Belydryn teg, mor gywir yw ei wedd,
 Nis gall un rhagrith drigo ynddo fe,
 Elfennau dyrys, hanfod twyll, ni fedd,
 Ond gem o burdeb yw o dan y ne.

Mae'i rym yn fwy angerddol na grym tân;
 Y garreg oer a dry y tân yn llwfr:
 Ond dyma rin ynghylch y deigryn glân,
 Wna galon adamant fel llyn o ddwfr!
 Mae hinsawdd hwn yn falmaidd ac yn chweg,
 Fel chwa Mehefin ar y werddlas ddôl,
 Ni rewa teimlad byth mewn tywydd teg,
 Y gwres a dry yr oerni yn ei ol.

Mae fel amrywiol olygfeydd diball
 Yn gweithio allan o'r teimladau cudd,
 Does neb ond Hollwybodol byth a all
 Ddadlennu y cyfrinion ynddo sydd:
 Edrycher arno yn disgleirio'n hardd;
 Ar ruddiau pur Emanuel ei hun;
 Portread bywiol yw gan Ddwyfol Fardd,
 I ddangos calon fawr y Duw i ddyn.



MARGARET.

GWYDDOST ystyr tlws dy enw,
 PUR yw hynny, onide?
 Cadw'n fyw yr ystyr hwnnw,
 Rho i burdeb gael ei le;
 Pur dy foes, a'th lwybrau cyson,
 Pur dy ymarweddiad syw:
 Gwyddost yr addewid ffyddlon,—
 "Pur o galon"—"gweled Duw."

HAFOD LON.

HAFOD LON, aneddle lonydd,
Tawel gartref bardd a'i fun,
Oni welwn drwy y darlun,
Lle mae nerth y cawr ei hun?
Gartref, gartref mae'r cyflenwad
Sydd yn gyrru'r dyn yn dân;
Hafod Lon yw'r ffynnon loew,
Sy'n pereiddio'i ddawn a'i gân.

Ei Eliza, lwysaf lawen,
Sydd fel heulwen uwch y fan;
Yntau fel y morwr mwynlon,
Yn llygadu am y lan:
Gwych deimladau mawl a chlodau,
Croesau weithiau'n donn ar donn;
Plenydd fawr ar for y llwyfan,
Mae dy haul yn Hafod Lon!

Bydd y morwr ar y cefnfor,
Weithiau'n colli'r "hyd" a'r "lled;"
Dwr o dano, awyr arno,
Methu gwybod ffordd y rhed:
Yna cwyd ei lygaid syber,
Gyda hyder at yr haul,
"Cymer" hwnnw, gŵyr bryd hynny
Fod ei lwybr yn ddiffael.

Tithau pan na ddel awelon,
I roi hwyl a blas a min,
Dirwest gyda'i Chaptan Plenydd,
Yn y "*doldrums*" cas a blin:

Cyfod dy olygon treiddgar
 At dy haul i'r Hafod Lon;
 Mae cysylltiad o'r fan honno
 A rhyw haul sydd uwch pob ton.

* * * *

Aeth rhai bach o'ch mangre iachus,
 Ienctyd nwyfus ar bob grudd:
 Cododd cwmwl dros yr Hafod,
 Troes ar fyrr yn Hafod brudd!
 Ond daw heulwen wedi hynny,
 Pelydr o'r ardaloedd pell,
 Cofiwch chwithau "gymryd" hwnnw,
 Haul o'r bur baradwys well.



FY NOSBARTH.

CHWITHAU, bellach, ewch a dysgwch,
 Enw Iesu Grist i'r plant;
 Dyna'r addysg oreu feddwch,
 Os am roi anfarwol dant;
 Tant a chwery pan y syrthio,
 Ser y nen yn chwilfriw mân,
 Gwyn eich byd os gellwch daro,
 Cydsain yn y ddwyfol gân.

Gallaf edrych yn eich wyneb,
 Gwenu arnoch yn ddifraw;
 Ysgwyd dwylaw mewn anwyldeb
 Yn y tragwyddolfyd draw:
 Cofiwch fy nghyfarfod yno,
 Pan y del eich awr i ben,
 Bydd yn bwysig fod yn gryno
 Yn y cartref hwnt i'r llen.

CYSUR I'R PARCH. THOMAS WILLIAMS,
GWALCHMAI.

PAM yr wyli am d'anwylyd?
Pam y mae dy fron yn drist?
Ai gwarafun ei gwmpeni
'Rwyt i'r anwyl Iesu Grist?
Pam y mae dy dagrau'n heilltion,
Yntau wedi mynd i'r nef?
O! mae'n rhyfedd fel yr wylir
Am un duwiol fel oedd ef!

Wyt ti'n meddwl fod y nefoedd
Felly wedi mynd ymhell?
Tithau wedi gweld dy riant
Pan ar drothwy gwlad sydd well;
Pan ffarweliai ef a'i deulu,
Pan wynebai'r ddaear gudd,
Nid oedd galar yn ei galon,
Nid oedd deigryn ar ei rudd.

Fab tirionaf, cod dy feddwl,
Sycha dagrau glân dy fam,
Dywed iddi fod y nefoedd,
Lawer nes yn awr, paham?
Bellach cartre'th dad yw Iesu,
Yn ei fynwes mae ei ran,
Edrych arno yn y Ceidwad,
Sydd bresennol ymhob man.

Paid a chofio iddo farw,
Cofia fod dy dad yn fyw;
Un farwolaeth sydd i'w chofio,
Marw Prynwr dynol ryw:

Nef ac uffern rodd i hwnnw
 Ddwyfol ac angeuol glwy,
 Ond y sawl bwrcasodd Iesu,
 Hwyl nis gallent farw mwy.



AR DDERBYNIAD DARLUN CYFEILLES.

MILOEDD o adgofion melus
 Ddeffry yn fy mron
 Wrth fyfyrion yn ddifyrrus
 Uwch dy ddarlun llon;
 Gwisgi dy anwyldeb cyntaf,
 A'th gynhennid wên,
 Ac un argoel eto welaf
 Iddynt fynd yn hen.

Methodd cystudd ag edwino
 Y prydfertion hyn;
 Angau er dy wneyd i wylo
 Dagrau uwch y glyn,
 Fethodd bylu yr hawddgarwch
 Yn dy lygaid mwyn,
 Purdeb cywir cyfeillgarwch
 Sy'n eu denol swyn.



PEN BLWYDD OLWEN.

OLWEN yw dy enw,
Owen oedd i fod!
(Dyna'r enw goreu
Glywais i erioed):
Ond mae Olwen anwyl,
Yn awgrymu myrdd
O rinweddau hawddgar,
Fyddant byth yn wyrdd.

Cofia hynny, Olwen,
Arwain di bob oed;
Modd y byddo diogel
Dilyn ol dy droed:
Edrych ar dy lwybrau,
Gan ystyried hyn,
Tyfed yno flodau;
Fyddo'n flodau gwyn.

Bydded gwyn dy fywyd,
Bydded gwyn dy fyd,
Bydded gwyn dy lwybrau,
Ar eu hyd i gyd:
Na fydd fel y rhosyn,
Mae gan hwnnw ddrain:
Ond fel lili dyner,
Wen, a theg ei graen.

Bydd fel swynol lili,
'N wylaidd blygu'i phen:
Dan wahanol droion,
Bydd yn lili wen;

Boed i tithau, Olwen,
 Feinir firain lon,
 Droï dy wedd i'r heulwen,
 Gwna'r un fath a hon.

Un peth arall, Olwen,
 Fyddai'n well na'r rhain,
 Yw cael bod yn lili,
 Er ymysg y drain:
 Hawdd blaguro'n heinyf,
 Pan ynghol yr ardd,
 Ond mae'r byd yn arw;
 Drain oddeutu dardd.

'Rwy'n dymuno heddyw,
 I ti Dduw yn rhwydd;
 Un o'th ddyddiau pwysig,
 Ydyw pen dy flwydd:
 Boed dy holl flynyddoedd,
 Fel dy enw glân,
 Fel y byddo'th fuchedd
 Yn hyfrydol gân.



PENNILL I RUTH.

GWYLIO a gweddio,—dyna'r ddwyffon deg,
 Gweithio ac areithio, dyna'r goron chweg;
 Bywyd pur, a genau glân, i draethu'n wiw,
 Llaw i arwain egwan at ei Dduw.

Y WEDDW.

*Cydfuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol
Caerdydd 1883.*

MAE Anian yn gwenu ymhurdeb ieuenctyd
A'r bywyd yn sisial trwy'r glaswellt a'r dail;
Yr adar ymddyrrchant i uchder y goedwig
Cyd-blethant ber seiniau o foliant di-ail:
Mae iechyd yn dawnsio rhwng blod-ddail y
meusydd,
Prydferthwch paradwys deyrnasa'n ddi-drai:
A'r haul wedi sychu y dagrau a lecha
Ar wyneb mawr natur â thywel mis Mai.

Yr ŵyn a ymbranciant hyd lethrau y bryniau,
Hoenusder a mwyniant hyd ddyffryn a dôl;
Mae cân y forwynig wrth odro'i diadell
Yn adsain ei thyner acenion yn ol:
Y môr ymlonydda mewn hyfryd dangnefedd
Heb unrhyw arwyddion o gilwg na dant;
Yr unig gynhyrfiant yw nofiad y badau,
A'r tonnau a greir gan gerrig y plant!

O! fyd gogoneddus, mor firain dy olwg,
Mor swynol dy ddoniau, mor bur yw dy wedd;
Wrth weld ardderchowgrwydd dy wyneb di
heddyw
Pwy byth a feddyliai fod ynnot ti *fedd!*
O! draethell d'wyllodrus! A weli y weddw,
Fel delw o farmor, yn sefyll yn syn,
Delfrydedd ei bywyd, ei gobaith a'i chalon,
I gyd yn gloedig dan briddell y glyn.

O fyd trychinebus! Pa le mae'th ogoniant?
 Ddoe popeth yn dyner, a phopeth yn hardd;
 Ond heddyw dan deimlad o siomiant aruthrol,
 Dichlynder a balla ym mlodau yr ardd!
 Doe popeth o'i deutu yn hoew a siriol,
 A phriod ei mynwes yn frenin ei byd;
 Ond heddyw yn unig ynghanol y dyrfa,
 A'i holl ragolygon yn chwilfriw i gyd!

O fyd cyfnewidiol! Does heulwen a chysur,
 A baentiai bob gwrthrych yn euraidd a mad;
 A'r fam y ddedwyddaf ynghanol ei theulu,
 A'i theulu y goreu o fewn yr holl wlad!
 Ond heddyw cymylau marwolaeth ymdaenodd,
 Ac angau ei liwiau ei hunan a ddyd,
 Anobaith a ddryllia angorion ei henaid,
 Uwchben ei hoff faban, heb dad, yn ei gryd!

Unigrwydd y weddw, pwy all ei ddarlunio
 Unigrwydd ynghanol llond aelwyd o blant!
 Unigrwydd aderyn diffaethwch, a hiraeth
 Yn bwyta ei mynwes, i dorri ei chwant,
 Mae bron fel unigrwydd marwolaeth ei hunan,
 Cyfeillion hebryngant at donnau y dwr:
 Ond yno gadewir y weddw yn druan,
 I gladdu ei chalon ym meddrod ei gwr!

Gorffwylledd a leinw ei meddwl yn hollol,
 Maddeued y nefoedd orffwylledd ei hing:
 Ei henaid a suddodd yn nyfnder ei gofid,
 Y tonnau cythryblus yn uchel a ddring;
 Gwrandewch ar ei llefau mewn anymwybydd-
 iaeth,
 Yn erfyn ymwarded rhag stormydd mor fawr,
 Cyn rho'i y dywarchen i guddio ei wyneb,—
 "O! rhowch fy amddifaid a minnau i lawr!

“ Y wyneb hawddgaraf; a raid ymfoddloni
 I weled dy roddi dan briddell mor drwch?
 A raid i mi'th adael i orwedd dy hunan
 Yn oer fel y ddaear ynghanol y llwch?
 Y galon anwylaf a gurodd rhwng dwyfron,
 A redodd yn ffrydlif o gariad i'm rhan;
 O! fynwent, os gwyddost beth ydyw trugaredd
 Gad i mi a mhriod gael bod yr un man!

“ Y dwylaw wasgarodd y fath garedigrwydd,
 Oedd megis tyneraf awelon yr haf;
 A'r wên ydoedd megis ymdaeniad y wawrddydd,
 Ei denol gyfaredd byth mwyach ni chaf:
 Y llais a chwareuai ar dannau fy nghalon,
 O angau creulonaf! ti fuost yn erch,
 Pan allit ti ddodi dy lenni alaethus
 Dros lygaid belydrodd fath foroedd o serch.

“ Fy nydd a fachludodd uwch mangre'th or-
 weddfan
 Pa fodd y dirwynir y gweddill i ben?
 A raid i mi deithio heb haul yn fy nwyfre,
 A dim ond cymylau yn llenwi fy nen?
 A raid i mi hwylio hyd fôr amgylchiadau,
 Heb lywydd i wyllo y llanw a'r trai?
 A raid im wynebu'r tymhestloedd fy hunan,
 A threulio'r blynyddoedd heb ynddynt fis
 Mai?

“ Y mis godidocaf o fisoedd y flwyddyn,
 Wrth edrych o'm deutu ar dde ac ar chwith;
 Adfywiad ganfyddir lle bynnag y syllir,
 Mae bywyd yn gloewi yn llygaid y gwllith;
 O wastraff ar fywyd! 'Rwyf bron cenfigenu
 Wrth weld y distadlaf flaguryn erioed,
 A darllen yr argraff o fywyd sydd arno
 Yn myned yn aberth i wadn fy nhroed!

“ Ffarwel, fy anwylyd, rhaid troi tua chartref,
 Y cartref fu unwaith mor gyfan a mad;
 Mae gennyf amddifaid yn galw am danaf,
 Rhaid i mi fod bellach yn fam ac yn dad:
 Pa beth a ddywedaf pan eilw fy Arthur
 Ei Dada—ei Dada, tro cyntaf i gyd!
 Pa fodd y dywedaf fod Dada yn ysbryd
 Dihalog yn gwylio sigliadau ei gryd!”

Y weddw alaethus, ni fyn ei diddanu,
 Ei dagrau wylofus gymysgent â'i llef;
 Yn nwylder ei gofid, anghofia bob cysur;
 Anghofia am foment fod Duw yn y nef!
 Ond trannoeth a wawria ar natur ei chyni,
 Tangnefedd byd arall ddisgleiria i'w bron;
 Anfeidrol dosturi a ddaw i'w chyfarfod,
 I ddangos yr Iesu yn marchog y donn.

Ie, weddw adfydus, os coron o berlau,
 Sy'n pwyso dy emrynt urddasol i lawr:
 Os ydyw teyrnwialen, a gorsedd, a theyrnas,
 Yn llethu dy ysbryd â beichiau rhy fawr!
 Neu ynte, os angeu hylldremia dy wyneb,
 A dim ond tylot-dŷ yn agor ei ddor,
 Mae dagrau y weddw o unrhyw sefyllfa,
 Yn cyffwrdd yn dyner yngorsedd yr Ior.


Mae ochain y weddw yn esgyn i fyny
 Gan basio'r cymylau a phasio y ser,
 A thynnu trugaredd o fynwes Jehofah,
 A dwyn cydymdeimlad Tywysog ein Ner:
 Mae'i lygad grasusol fel tanllyd amddiffyn,
 Yn gwylio ei llwybrau rhag gormes na nam;
 Os rhagfarn a feiddia orthrymu ei henaid
 Caiff Frenin y nefoedd i arbed ei cham.

AR YMADAWIAD CYFEILLION I'R MAES
CENHADOL.

“ O BOED i'r hwn a biau'r gwaith,”
Eich cynnal ar bob cam o'ch taith;
Anghofiwch holl negesau'r llawr
Wrth gofio am eich neges fawr.

Boed i bob cam a ro'wch ynghyd
Gael boed yn bregeth bur i'r byd;
Eich ysgogiadau bob yr un
Gyhoeddo'n deg am Geidwad dyn.

Anghofiwch bob ffarwelio trist,
Anghofiwch bawb ond Iesu Grist,
Ac ynddo Ef cawn ninnau ran,
A chwrddydd eto yn y man.



CARTREF.

O! ENW gorswynol, fy nghartref hyfrydol,
Da gen' i dy ganmol heb gyni,
Mae'th lun ar fy nwyfron, yn gosod yn gyson
Beth ddywed y galon heb gulni;
Dymunaf gael aros, ar ferr-nos a hir-nos,
A gorffwys yn ddiddos tra fyddaf
Ar aelwyd fy nghartref a'm teulu mewn tangnef,
Gogonedd fy ngwiwnef a ganaf.

AR FARWOLAETH JANE CATHERINE.

DAETH Haul Cyfiawnder yn ei rym,
 Tywynnodd yn ei bron,
 A gwnaeth ei hysbryd puraidd hi'n
 Rhy dda i'r ddaear hon,
 Ehedodd fry uwch llygredd byd
 Mewn gwisg ddilychwin wen,
 Ac engyl nef ar frys am roi
 Y goron ar ei phen.

Blodeuyn prydferth ydoedd hi,
 Yn cario lliwiau'r nef,
 A pherarogledd rhwng ei ddail,
 Pur sawr ei arogl Ef :
 Nid rhyfedd i'w rhieni hoff
 Ei charu ar y llawr,
 Yr un mor fuan oedd i fod
 Ym mhwysi'r Brenin Mawr.



MEWN ALBUM.

WRTH droi dalennau'r gyfrol hon
 Canfyddaf gamrau gwyn athrylith,
 A theimlaf gryndod dan fy mron
 Rhag ofn rhoi us ymysg y gwenith ;
 Gan hynny'm diogelaf ran
 'Rol gweld y llyfr a'i ddarllen drwyddo
 Fydd cael fy nghofio yn y man
 Heb ddim ond rhoi fy enw ynddo.

AR BRIODAS.

MAE'R byd am rywbeth newydd,
A newydd fyn ei gael.
Yr hen sy'n myned heibio'n chwim,
A'i gyfrif gyda'r gwael,
Ond dyma hen beth newydd,
Priodas mab a merch,
A newydd byth y pery hyn
Tra y parhao serch.

Mae'th gartref enwog dithau
Yn hen a newydd iawn,
Yr hen mewn parch a mawredd pur,
Yn newydd ymhob dawn;
Mae coron hen anrhydedd,
Uwchben y lle'n ddilai,
Ond caredigrwydd yno sydd
Mor newydd a mis Mai.

Hawdd iawn dymuno i ti,
Wyn fyd, O eneth fad,
Wyt deilwng o anrhydedd gwir
Er mwyn hen dŷ dy dad;
Ond gwell, wyt deilwng wrthrych
Edmygedd it dy hun,
A'r mab a gaiff dy galon lân,
Gwyn fyd, gwyn fyd y dyn.

Taraned y magnelau
Er anfarwoli'r tro,
A rhued yr ergydion llym
Nes siglo yr holl fro;

Fe floeddiwn ninnau'n goreu
 Ein cyfarchiadau llon,
 Boed llewyrch byth fel enfys deg
 Uwch y briodas hon.



MISS A. J. DAVIES

(Bedford Street, Liverpool).

FE gerfiodd ei henw ar lechres anrhydedd,
 Anwyldeb a'i paentiodd ar galon ei gwlad;
 Gall oesau i ddyfod adnabod pob rhinwedd
 Wrth ddarllen ei hanes mewn teilwng fawr-
 had.

Mae hanes Miss Davies yn hanes i bara,
 Tra enaid yn werthfawr—tra cariad yn ddrud,
 Ceir enw ein gwrthrych gan bwyntil na wyra
 Ar glawr anfarwoldeb pan dderfydd y byd.

Tywalltodd ei henaid i waith y Gwardedwr,
 Y truan, adfydus, gyfrifai yn frawd;
 Y meddwyn gyfodai o isder ei gyflwr,
 Anghofiai ei hunan yn achos y tlawd.
 Hi ydoedd Gamaliel i'r oes gydag addysg,
 Hi ydoedd Dorcas i weinïon y byd,
 Meithrinfa ei chyngor oedd burdeb digymysg,
 Elfennau ei haddysg oedd cariad i gyd.

HUNO YN YR IESU.

IEUENCTYD tirion, llawen fryd,
 Dewch gyda mi am enyd
 I weled gwir lawenydd byd,
 A gwir lawenydd gwynfyd;
 Llawenydd bywyd! nis gall fyw
 Mor agos at farwoldeb;
 Pwy byth yn llawen a all fod
 Yn ymyl tragwyddoldeb?

Llawenydd bywyd! Na foed son
 Fan yma am lawenydd,
 Nis gellir bod yn llawen byth
 Mor ddwfn yngwely cystudd;
 Mae yma bawb yn wylo'n drist,
 Galaru mae'r holl deulu;
 Ond dyma un o ffrindiau Crist
 Yn dechreu gorfoleddu.

Mae'r tonnau'n uchel o bob tu,
 A'r dymestl yn gerwino;
 Anadliad ferr y galon wan,
 Bron, bron yn methu curo.
 Gwrandewch ei sibrwd distaw hi,
 Nis gall ond ei sibrydu,
 Ond tery dant sydd fyny, fry,
 A seinia'n beraidd ganu.

“ O! distewch, derfysglyd donnau,
 Tra fwy'n gwrando llais y Nef,
 Swm mwy hoff a sain mwy hyfryd
 Glywir yn ei eiriau Ef.
 F'enaidd gwrando, f'enaidd gwrando,
 Llais tangnefedd pur a hedd.”


Nid oedd gallu dyn i roi
 Tawelwch yn y tonnau,
 Ymdrechion pawb yn ofer drodd
 I lwgr-wobrwyo Angau,
 'Doedd neb yn foddlon ond hyhi
 Ei weled yn dod ati,
 Ond plygodd hi ei phen yn foes
 I'r genllif gario drosti.

Wynebodd arall fyd yn ddewr,
 A'r glannau draw yn oleu,
 Dim ond noswyllo gyda bryd
 I godi yn y boreu.
 "A brysiwch," meddai, "ar fy ol,—
 Yr ydych yn dynesu,"
 A hunodd yn y dwyfol gol,
 Gan sibrawd enw Iesu.



IESU YN AGOS.

'RWYF yn galw, Iesu grasol,
 Arnat o gyfynder mawr;
 Mae fy mhechod llym gormesol
 Bron a chael fy mhen i lawr.
 Bydd yn Dduw o agos i mi,
 Gyrr fy meiau oll ymhell,
 Bydd yn agos at fy ngweddi,
 Dyro sail gobeithion gwell.



YNYS LAWD.

Er dy fod ynghanol lli,
Eto tawel ydwyt ti."

FY NGWLAD.

Ai gwendid ydyw caru ei wlad ei hun?
 Yn well—yn gan mil gwell nac unrhyw un?
 Os dyna yw, ymffrostio ynddo wnaif,
 O gariad at fy ngwlad yr wyf yn glaf.
 O Gymru deg! Yr wyt yn anwyl im,
 Fy nghalon atat a ehed yn chwim,
 Mae natur wedi'th freintio'n llawer gwell,
 Mae'th fryniau bach yn uwch na'r bryniau pell
 I mi, mewn hanes y mae rheiny'n fawr,
 Ond ffaith weladwy wnaiff y bach yn gawr.
 Mae'th eira'n wynnach! ac mae'th adar mân
 Yn fil melusach yn eu swynol gân!
 O'r braidd na thybiwn fod pelydrau'th haul
 Yn fyrdd disgleiriach yn dy fro ddi-ail!
 Ac megis seren mewn gogoniant gwyn
 Yw Môn, hen famaeth gu y gwledydd hyn,
 Gwyn fyd a sang dy dir; beth af i son?
 Rwy'n credu fod y nef yn nes i Fon.



MEWN ALBUM.

BETH a fyddai yn gof-golofn
 Yn eich Cof-lyfr tlws diail?
 Beth a ddyry anfarwoldeb
 Ar dy enw rhwng ei ddail?
 Dweyd fy mod yn caru'r Iesu
 O fy mebyd hyd fy oes?
 Pery hynny tra parhao
 Cof a chân am Angau'r Groes.

Rhywbeth mawr yw Anfarwoldeb,
 Rhywbeth hardd ar lan y bedd,
 Rhywbeth byw ar lwch marwoldeb,
 Dardd yn fythol wyrdd ei wedd!
 Os am gaffael meddiant ynddo
 Pan yn ulw lyfrau'r llawr,
 Rhaid i'm henw'n argraffedig
 Fod ynghof-lyfr Iesu Mawr.



“GWAWR.”

(Dyfyniad o Riangerdd).

GWAWR y bore ymagorodd,
 Gwawr ar f'enaid innau dorrodd;
 Gyda'r wawr y ganwyd imi
 Eneth anwyl fel y lili.

Troaf tua'r Dwyrain beunydd,
 Gyda diolchiadau newydd;
 Swniaf fawl a'm seiniau goreu
 I Greawdwr gwawr y boreu.

Fel y wawr y byddo'm geneth,
 Adlewyrchu'n bur a difeth,
 Gan wasgaru teg oleuni,
 Fel y wawr ar ddydd ei geni.

O'r fath brydferth awgrymiadau
 A gyflea y llythrennau,
 Ac i gofio'r gwyn funudyn
 Gwawr fydd enw'm hanwyl blentyn.

CENHADWR Y MORWYR.

(Caergybi).

NID anghofiodd awel Hydref
 Wyro'r blodau mwyaf hardd,
 Nid anghofiodd swm ei dolef
 Alarnadu uwch yr ardd;
 Cwympto'n drist ar ddaear galed,
 Nid anghofiodd dail y coed,
 Angau gyda'i farwol dynged,
 Nid anghofiodd *Capten Lloyd*.

Nid anghofiodd tlyzni natur,
 Yn ei dymor harddu'r llawr,
 Nid anghofiodd daenu cysur
 Gyda'i wyrddlas gwrlid mawr.
 Dyma wron nad anghofiodd
 Gadw cyfraith Duw erioed,—
 Dyma'r rhinwedd beraroglodd
 Lwybrau bywyd *Capten Lloyd*.

Pan fa'i gartref ar yr eigion,
 Pan fa'i dŷ ar frig y donn,
 Pan ynghanol grym peryglon,
 Pawb o'i gylch yn brudd eu bron,
 Nid anghofiodd y cyfleustra
 I rybuddio, doed a ddoed,
 Bwrdd ei long a droi'n areithfa
 I godi Iesu *Capten Lloyd*.

Pan y gwgai yr elfennau,
 Pan gymylai ar ei hynt,
 Cadw'i was mewn cyfyngderau,
 Nid anghofiodd Duw y gwynt;

Cledr llaw yr Hollalluog
 Yw'r bywyd-fad sicra' 'rioed,
 Tafu angor ffydd ddiysgog
 Wnaeth yr anwyl *Capten Lloyd*.

Nid anghofia'r nodwydd bwyntio
 Tua'r gogledd o bob man;
 Ple mae'r morwr all anghofio
 Gwylio'n ddyfal am y lan?
 Dyma'r gwr a bwyntiodd gannoedd
 Tua'r hafan oreu erioed,
 Pwy anghofia tra bo moroedd
 "Bethel Flag" y *Capten Lloyd*?

Nid anghofiodd fyw i farw,
 Weithian cafodd farw i fyw;
 Nid anghofia godi'n fore
 "Ddydd y Farn" ar ddelw Duw:
 Ar ei had y byddo'i ardeb,
 Nac anghofiont ol ei droed;
 Nid anghofia Anfarwoldeb
 Gerfio enw *Capten Lloyd*.

Ni wna Barnwr byd anghofio
 Sychu dagrau'r weddw brudd,
 Nid anghofia engyl wyllo
 Tawel fan ei wely pridd;
 Ni chadd Mynwent Dwyran gadw,
 Yn ei mynwes glyd ni roed
 Un hawddgarach, un oedd burach,
 Na'r diweddar *Capten Lloyd*.

MORWYNIG FACH O'R BALA.

DAETH morwynig fach o'r Bala,
 I Gaergybi i roi tro,
 Geneth heinyf, iach ei gwala,
 Mae yn fraint ei chael i'r fro;
 Dawnsia bywyd ar ei hemrynt,
 Harddwch a fantella'i grudd,
 Gwên ei genau sydd o danynt,
 Ymlid hwnt bob meddwl prudd.

Mwy na hynny, mae athrylith,
 Yn ymddangos uwch ei hael,
 Na foed lle ynglyn a'r fendith,
 I gartrefu meddwl gwael;
 Gwell na'r cyfan, mwy o lawer,
 Uwch bob croes a siomiant trist,
 Yw dy fod, fy ngeneth syber,
 Yn anwylo Iesu Grist.

Y mae swn hen Haleliwia
 Emynyddes Cymru Lân,
 Fyth yn hofran ger y Bala,
 Er pan roes y wlad ar dân.
 Sanctaidd dân mewn angerddoldeb,
 Nid oedd ond morwynig wan,
 Tithau, dyro anfarwoldeb,
 Ychwanegol ar y fan.

Bydd yn *Galvin* ran dy grefydd,
 Gras am unwaith, gras am byth,
 Bydd yn *Wesley* hefyd beunydd,
 Mewn gweithredoedd da di lyth,

Bydd yn *Fabrist*, dwr rhinweddol,
 Glendid mawr i ti a ddwg,
 Bydd yn *Anibynnol* hollol
 Ar gynlluniau yr un drwg.

Cerdd ymlaen, enethig wiwlon,
 Gwylia dynnu'th nod i lawr;
 Cadw'n gynnes dan dy ddwyfron
 Gariad at dy Geidwad mawr.
 Mae i'th degwch yn dy yrfa,
 A'th dalentau gloewon drud,
 Neges fawr o law Jehofah,
 Dysgu honno yn y byd.



“ O FE FYDD YN HAF O HYD.”

O! FE fydd yn haf o hyd,
 Lle mae Iesu'n haul y byd,
 Lle mae aur delynau'r nefoedd,
 Lle mae “ Lili y Dyffrynoedd,”
 Minnau'n ieuanc yn oes oesoedd,
 O! fe fydd yn haf o hyd.

O! fe fydd yn haf o hyd,
 Lle mae Iesu'n haul y byd,
 Lle blagura “ Rhosyn Saron,”
 Fan lle mae anniflan goron,
 Wedi cyrraedd “ Mynydd Seion,”
 O! fe fydd yn haf o hyd.

BORE GWANWYN.

AR ol i'r gaeaf suo'n glyd
 I'w fynwes er yn llom,
 A siglo anian yn ei chryd
 Mewn cwsg o ddu-nos drom,
 Daeth bore gwanwyn, siriol wawr,
 A mil o glychau syw,
 I alw ar hen anian fawr,
 I ddod o farw'n fyw.

Ffarwel, am dymor, eira gwyn,
 Ffarwel, y rhewynt blin,
 Daeth wyn i brancio ar y bryn,
 Daeth melus, hyfryd hin,
 Daeth adar bach a'u cerddi chweg
 I ddweyd daw blodau fyrdd,
 A "bore da" i anian deg
 Yw iaith yr egin gwyrdd.

Mae anian gyda'i doniau hardd
 Yn dysgu gwers i ddyn;
 Pob blodyn—pob eginyn dardd
 Sy'n dwyn ei wers ei hun.
 Y bywyd newydd sy'n y dail
 Adlewyrch ardal bell,
 Gan sibrd fod i'r Cristion sail
 Am adgyfodiad gwell.

O! wanwyn braf,
 Croesaw, wanwyn braf,
 Iaith y gwanwyn ydyw,—
 "Wedi hyn daw haf."

DIRWEST.

(I'r Plant).

MAE byddin dirwest ar y maes,
 A'r Gobeith Lu yn dod,
 A'u gwisgoedd gwynion, prydferth, llaes,
 Yn canu clych eu clod.
 Rhinweddau fyrdd sy'n crogi'n glau
 Wrth odreu rhain i gyd,
 A dyna rinc eu tincian hwy,—
 Rhaid ydyw sobri'r byd.

CYDGAN.

Rhaid ini sobri'r byd cyn hir,
 Rhaid ymladd medd'dod cas;
 Ryfelwn a gweddiwn wir,
 Ar Dduw i roddi ei ras.

Trueni gwel'd y ddiod gref,
 Yn sarnu dyn i bant,
 Mae calon Iesu yn y nef,
 Yn gwaedu dros y plant;
 Rhieni plant yn feddw sydd,
 A'u helynt yn ddirâd,
 Duw Cymru fu, y sydd, a fydd,
 O! gwared ni a'n gwlad. *Cydgan.*

Er dysg am ddim a bwyd yn rhad,
 A Beibl ymhob llaw,
 Y dafarn sy'n cael llog y wlad,
 Gan lenwi'r byd â braw;
 Tydi yn unig, Iesu glân,
 Ro'ist fywyd dros y byd,
 Ymbiliwn arnat, fawr a mân,—
 O! cau'r tafarnau i gyd. *Cydgan.*

I CHWAER YN EI CHYSTUDD.

ANWYL chwaer, paid digaloni,
Dan dy gystudd blin,
Cuddia'r cwmwl wiw oleuni,
A thynrach hin.

Anwyl chwaer, O, paid a wylo,
Golli cysegr Duw;
Y mae afon Duw yn ffrydio
I'r lle 'rwyf yn byw.

Iesu fu dy gyfaill goreu
Ar hyd dyddiau'th oes;
Braint dy fywyd er yn foreu
Ydoedd "Stori'r Groes."
Croes yr Iesu ydoedd honno,
Gariodd er dy fwyn;
Tithau nerth a gefaist yno,
Dan bob croes, i'w dwyn.

Rhoist dy fywyd di dy hunan
Iddo'n ol ddinam,
Gelli gyfri'th dŷ yn gyfan,
Gyda Duw eu mam.
Gwyn dy fyd di, fam yn Seion,
Mwy gwyn fyd dy le,
Er rhwng erchwyn gwely'n gyson,
'Rwyf ynghyfri'r ne.

Gŵyr yr Iesu dy gystuddiau,
Bu yn glaf ei hun,
Cofia heddyw'th gymwynasau,
Iddo bob yr un;

Mae mewn syched, mae'n newynu,
 Eto yn ei blant,
 Tithau gefaist arno weini,
 Trwy ddiwallu'u chwant.

Nodded nef ymdaeno drosot,
 Torred arnat wawr,
 Gweddi daer sy'n esgyn erot
 At y "Meddyg Mawr;"
 Mwy yw Ef na phob afiechyd,
 Na gwendidau'r byd,
 Gall Efe droi'r oll yn fywyd,
 Ac yn "Haf o hyd."



ANN GRIFFITHS.

AETH heibio i deganau'r llawr,
 Aeth hwnt i ser y nen,
 Uwchlaw i'r cymyl, at y wawr
 Cartrefa draw i'r llen:
 Cyffyrddodd yn y goleu clauer
 Sydd ar yr orsedd lân
 Nes dwyn y Gair yn sylwedd byw,
 Tragwyddol yn ei chân.

Nid oedd ond Gethsemane Ardd,
 R'odd iddi Faban Mair;
 Ei Nardus a'r Phomgranad teg,
 A dyfodd yn y Gair.
 Ni feddai anian iddi hi
 'Run swyn, na bri o'r bron,
 Cydgasglodd holl ogoniant byd
 I Rosyn Saron hon.

"GWAWR."

(Dyfyniad o Riangerdd).

CYNT na'r eryr ar yr awel,
 Cynt na'r wiwer yn y coed,
 Cynt na chyflym droed y camel,
 Y daeth Gwawr yn ddeunaw oed.
 Llithrodd dyddiau maboed heibio,
 Megis afon tua'r môr,
 Ac efelly yn ymsuddo
 I'r anneirif ryfedd stor.

Ond nid felly yr ymgollodd
 Caredigrwydd calon Gwawr,
 Ei rhinweddau a ymgododd
 Fel y gwreichion uwch y llawr.
 Nid fel gwrechion yn diffoddi,
 Ond fel hynny'n fwy o dân,
 Gan gynhesu wrth ymroddi
 I was'naethu mawr a mân.

Buan iawn yr aeth ei henw,
 Yn ddiareb yn y fro,
 Pawb wrth gofio'r enw hwnnw,
 Gofiai ryw garedig dro.
 'Roedd ei hynod ddiniweidrwydd
 Yn ei gwneyd yn ysgafn fron,
 'Roedd ei phryd yn llawn serchawgrwydd
 Nefoedd yn ei gwyneb llon.

Pan fa'i rhywun mewn cyfyngder
 Gwawr oedd gyntaf yn y fan;
 Truan tlawd mewn rhyw iselder,
 Gwawr a helpai tua'r lan.

Gair oedd ganddi i'r oedranus,
 Gwên i'r ieuanc, lawn o swyn,
 Olew cysur i'r galarus
 Ydoedd gwedd ei gwyneb mwyn.

'Roedd prydferthwch ei gweithredoedd
 Yn ei gwneyd i bawb yn hardd,
 Nid teleidion natur ydoedd
 Yn ei gwneyd fel blodyn gardd;
 Er ei bod yn dlws efelly,
 Gydag aelïau duon main,
 A dau lygad yn pelydru
 Byd o degwch drwy y rhain.

Mae y fath wahaniaeth dirfawr,
 Yn ein barn ar bwnc y tlws,
 Un edmyga ros yn rhwysgfawr,
 Llall y briall ger ei ddrws,
 Un am lygad fel y saphir,
 Arall am y duaf un,
 Un am wallt fel aur i'w feinir,
 Ail am wineu idd ei fun.

Pawb a gydolygai'n hapus,
 Pawb a ddelai i'r un farn;
 Ond eithriadau tra dirmygus,
 Sydd ry wael i fod yn sarn;
 Pawb ond hynny ganai'r cydgan,
 Gan ymuno fach a mawr,
 Yn y geiriau syml diddan,
 Gwyn ei fyd a gaffo Gwawr.

"THE DAFFODILS."

(Wordsworth).

ARALLEIRIAD.

FEL cwmwl ar yr awyr chweg,
 Y crwydrais unwaith ar fy hynt;
 Canfyddais fyrdd o flodau teg
 Yn dawnsio yn y distaw wynt,
 Ar fin y lle chwareuent gerdd,
 Telynau fyrdd dan goedwig werdd.

Cyrhaeddent dan arweiniad Ner
 Hyd lan y môr, fel byddin lu
 Barhaol, fel afrifed ser,
 Wreichionent yn eu llwybr fry;
 Mil filoedd welais ar fy nhaith,
 Yn ymwefreiddio ar un waith.

Gerllaw fe ddawnsiai'r tonnau can,
 Ond ofer oedd eu hymffrost mwy,
 Yr euraidd gatrawd ar y lan,
 Fachludodd eu dillynder hwy.
 'Roedd raid i'r bardd wrth syllu'n syn
 Ymhoeni megis oen ar fryn.

A mynych pan yn gorwedd bwyf
 Mewn rhyw anhunedd blin a phrudd,
 Yn wael fy nhrem o dan fy nghlwyf,
 Melltenant ar fy enaid cudd,
 Fy nghalon chwery yn y gân,
 A dawnsia gyda'r blodau mân.

AR BRIODAS.

GLAN briodas, beth sydd lanach?
 Beth siriolach sydd i'w gael?
 Gloew fodrwy, beth sydd loewach?
 Dim o dan dywyniad haul.
 Beth gadarnach ar y ddaear?
 Peidier son am rym y graig;
 Canmil cryfach cwlwm cymar,
 Deuddyn anwyl—gwr a gwraig.

Cefaist ti y goron, Tegfan,
 Pan y cefaist Mary lân,
 Cadw hi yn hoew ddiddan,
 Ceidw hithau'n gu dy gân:
 Boed disgleirdeb adlewyrchiad
 Bywyd pur ar hyd eich hoes,
 Yn goleuo rhyw gerddediad
 Dyrus lwybrau dysg a moes.

Boed cymdeithas yn amgenach,
 O'r briodas brydferth hon,
 Boed rhyw awyr yn ysgafnach,
 Boed rhyw "leddf" yn troi yn "llon."
 Bydded nefoedd ar eich aelwyd,
 Geidw ymaith ysbryd trist;
 Cofiwch, dysgwyd chwi yn ddiwyd,
 Lwybrau esmwyth Iesu Grist.



MIRIAM FACH.

MIRIAM fach, heb fam i gychwyn
 Gyrfa bywyd yn y byd;
 Pwy a'th arwain, anwyl blentyn,
 Pwy a sigla'th ddyrus gryd?
 Tannau calon pwy gynhyrfa
 Wrth dy oslef eiddil wan,
 Llygad cyflym pwy'th ddilyna
 I'th helbulon ymhob man?

Pwy a wylia'th ysgogiadau,
 Clustiau pwy adneba'th gri?
 Pwy ddealla'th ocheneidiau,
 Pwy a sych dy ddagrau di?
 Pwy'th gerydda pan ddechreui
 Ddysgu gyntaf wneuthur bai?
 Pwy a ddwed mai drwg a wneli
 Pan ddywedi di "Na nai"?

Hidia befo, Miriam dirion,
 Gall yr Hwn a ddug dy fam,
 Roddi calon mam i estron,
 I'th amddiffyn rhag pob cam;
 Gall ro'i breichiau tyner cariad
 I'th gofleidio, anwyl un,
 O ran hynny, gall ddiddanu
 Fel diddanai'th fam dy hun.

Blentyn anwyl, rhoddwn enw'th
 Fam i ti ar draws ei harch,
 Rhodded Duw it ras i'w gadw
 Mewn anrhydedd byth a pharch;

Fe'allai gelli di gyfanu
 Rhwyg a wnaed gan drefn y nef,
 Pan y ffeiriodd gyda "dadi,"
 Miriam am ei Firiam ef.




ENW'R IESU.

PEIDIWCH maeddu enw'r Iesu
 Er un dim sydd yn y byd,
 Peidiwch ei ddi-anrhydeddu
 Er trysorau prinion drud;
 Mae yn enw gogoneddus,
 Glanach yw na gwawr y dydd,
 Paid a'i faeddu mor ddi-esgus,
 Onide cei chwerwedd prudd.

Paid diwyno enw'r Iesu
 Gyda pharddu pechod cas,
 Enw ydwyt yn broffesu,
 Enw wisgir gyda blas;
 Gwylia'i bylu gyda brychau,
 Chwantau cnawdol, gwirion ffol,
 Paid dynodi dy wendidau
 Wrth ei gario yn dy gol.

Gwylia rwystro rhai o'r defaid,
 Gwylia gloffi rhai o'r wŷn,
 Gydag enw mor fendigaid
 Sydd yn llawn o nefol swyn;
 Gwell ymddiosg oddiwrtho,
 Na chynhyrfu llid yr Ior,
 Rhag i'r enw mawr dy suddo
 I ddyfnderoedd erch y môr.



SIR FON. 5

“Gwyn fyd a sang dy dir! Beth af i son?
Rwy'n credu fod y nef yn nes i Fon.”

FY ANWYL FFRYND.

'Rwy'n cenfigenu wrth y bedd
 Wrth gofio'i gwyneb dengar,
 A meddwl fod ei siriol wedd
 Dan glo yng ngraian daear.
 O! greulawn fedd, pa bryd, pa hyd,
 Cei ddigon o'n hanwyliaid?
 Pan gefaist hon, ce'st ddewis byd,
 A dewis nef i'th goflaid.

'Rwy'n methu deall ambell dro,
 P'odd llygri beth mor buraidd,
 Yr ydoedd fel goleuni'r fro,
 O'r bron, gan fuchedd sanctaidd.
 Ond ha! Wrth gofio'r ysbryd sydd
 Yn diogelu'r babell,
 Pan gyfyd hwn i'w elfen rydd,
 Rhaid rhoi y pridd i'r briddell.


Wrth fyned heibio'r dawel fan
 'Rwy'n methu peidio cwyno,
 Er gwybod imi roddi Ann
 Mewn diogel obaith yno;
 Er credu, pe bae'r gwyntoedd fflwch
 Eithafol yn gwasgaru,
 Ceid edyn engyl gasglai'i llwch,
 Er hyn rhaid im' alaru.

Nid oedd ond ysbaid blwyddyn ferr
 Er bore ei phriodas;
 Ond angau gyda'i feiddiol herr,
 Ar fyrder wnaeth alanas;

'Rwy'n methu sylweddoli'r ffaith
 Ond fod rhyw fan neillduol,
 Mewn mynwent werdd gerllaw yn llaith
 Gan dagrau ffrynd mynwesol.

Ac nis gall bedd er maint ei rym,
 Y dirgel glwm ddadglymu;
 Mae argraffiadau serch mor llym,
 Nid pridd all eu diddymu;
 Ei llygad treiddgar—drych ei bron,
 A'i thirion gywir wenau;
 Nid ebargofir byth mo hon,
 Nes caffo'r baddrod finnau.

Ffarwel, fy anwyl ffrynd ddiffael,
 Pan atoch bwy'n dynesu,
 Mi wn yn iawn pa le i'ch cael,
 Yn rhywle'n ymyl Iesu;
 Os gwelwch le yn wag ger llaw,
 Pwy wyr nad fi a'i piau,
 A dyna fydd ein nefoedd draw,
 Cael Iesu Grist a'n ffryndiau.



CYFARCHIAD PRIODASOL.

BENDITH ar eich uniad glân,
 Boed eich oes yn oes o gân;
 Boed digonedd o bob dawn,
 Iechyd da a chwprdd llawn,
 Cariad pur yn torri drosodd,
 Nefoedd yn y ddeufyd trwodd.

AR YMADAWIAD CYFAILL I'R
AMERIG.

Wrth adael hen froydd a bryniau dy wlad,
Wrth adael dy liaws cyfeillion,
Wrth adael yr aelwyd dy fagodd mor fad,
A'r fron a'th anwylodd mor dirion,
Gadewi ar unwaith galonnau fel dur,
A gura mewn serch wrth dy gofio,
Gadewi weddiau esgynnant yn bur,
I ofyn am engyl i'th wyllo.

Tra llwyddiant a ffynn dy waith dros y donn,
A'th wyneb at dir y Gorllewin,
Esgyned ochenaid o ddyfnder dy fron,
Wrth adael dy lenyrch cysefin.
Ar ol i'th fwriadau di ddyfod i ben,
O boed i dy fynwes gynhyrfu,
A bydded i'th hiraeth dan fendith y nen
Dy hwylio di eto i Gymru.

Y llwybrau a gerddaist ddiferant gan fyrr
Daioni, rhy ddrud i'w bwrcasu,
Arogledd dy enaint yn ddiâu a dyrr
Ar ben dyrchafedig yr Iesu.
Wrth godi dy gyd-ddyn crwydredig o'r llaid,
Wrth wasgar dy fynych gymwynas,
Cei anfon i fyny dy weddi ddibaid,
A llefain, "O deued dy deyrnas."

Tra pery y Gobaith, y Cariad, y Ffydd,
I ennyn fel tân yn dy fynwes;
Tra gelyn dynoliaeth yn rhodio yn rhydd,
Atalia di gamrau ei ormes :

Parhaed dy berffeithrwydd lle bynnag yr ai,
 Parhaed caredigrwydd dy galon,
 A Duw tragwyddoldeb a ddyryn ddi-lai
 Barhad ar brydferthwch dy goron.



CANU YN OES OESOEDD.

Os mynnwn fod ynghôr y nef,
 Yn canu gyda'r seintiau,
 Os mynnwn gael y delyn aur,
 A'r goron ar ein pennau;
 Rhaid i ni garu Iesu Grist,
 A charu plant y nefoedd,
 O dyna hyfryd, hyfryd waith,
 Fydd canu yn oes oesoedd.

Os gorfod arnom ar ein taith
 Fydd mynd drwy ddyffryn galar,
 Cawn deg arweinydd, Ceidwad cu
 A fu yn rhodio'n daear;
 Ac yn ei gwmni Ef fynd trwy
 Y dyfroedd a'r tymhestloedd,
 O dyna hyfryd, hyfryd waith,
 Fydd canu yn oes oesoedd.

Os mynnwn fod ynghôr y nef,
 Rhaid ini fedru'r anthem,
 Ac yma mae yr ysgol râl,
 I ddysgu carol Bethl'em;
 Dewch, anwyl blant, i chwyddo'r dôn,
 A seiniwn byth a bythoedd,
 O dyna hyfryd, hyfryd waith,
 Fydd canu yn oes oesoedd.

I'R BARDD J. T. JOB.

"Blwyddyn newydd ddedwydd dda,
Chwenychaf i chwi'n ucha."—(*Calenig*).

Ie boed y flwyddyn newydd
I chwi'n dda o ben i ben,
Pob munudyn ynddi'n ddedwydd,
Heb i gwmwl dduo'ch nen
Oni fydd yn gwmwl goleu
Deifl brydferthwch ar y donn,
Gyda melyn aur ymylau
Adlewyrcha hedd i'ch bron.

Nefoedd anwyl, bydd drugarog,
Wrth dy blentyn, wrth y bardd,
Dyro iddo ddal yn ffyddiog
Er i'r gwyntoedd ddeifio'i ardd.
Dyro iddo "ddameg" arall,
Dal ei olwg tua'r wawr,
Torred arno flwyddyn ddiwall,
Nefoedd eilwaith ar y llawr.

Dyro iddo Salmau Seion,
Mewn melusder megis cynt,
Tynn y prudd-nod o'i alawon,
Caned eto ar ei hynt;
'Rym yn disgwyl am ei delyn
Fu mor lawn o ysbryd cerdd,
Brysied Job a'i allu dillyn,
Gyda'i awen fythol werdd.

Awyr las uwch ben y byd,
Gofid gadwer yn ei gryd,

Haul y nefoedd fo'n tywynnu,
 Blodau cysur fyddo'n gwenu,
 Adar amgylchiadau'n canu,
 Fyddo'r flwyddyn ar ei hyd.



ANOGAETH I FERCH IEUANC GANU.

PAN roddodd Duw beroriaeth,
 I'r ehedydd bychan llon,
 Rhodd i'r byd ryw etfeddiaeth
 I'w ddyrchafu uwch y donn;
 Nid uwch ben ei nyth ei hunan
 Mae i ganu am ei oes;
 Na, mae'i lais fel nefol drydan,
 I liniaru llawer loes.

Felly chwithau, eneth siriol,
 Rhod i'ch gofal seiniau hardd,
 Cawsoch ffafrau da a doniol,
 I'w gwasgaru megis gardd;
 Cenwch yn eich cartref dengar,
 Ar eich aelwyd—hapus nyth,
 Nac anghofiwch ras y gwasgar,
 Sylfaen ein Hefengyl byth.

Wrth wasgaru, y mae casglu,
 Gwasgar fel yr hauwr mad,
 Lluchio'r hadau fel i bydru,
 O'r fath wastraff sy'n y wlad!
 Na, ni raid i ni bryderu,
 Ffynna hyn neu ffynna'r llall,
 Yn ein Duw 'rym yn hyderu,
 Y mae llwyddiant yn ddiball.

PRIODAS


*Miss Kate Jones, Cerrigydrudion, â Mr. W.
Rowlands, Emporium, Caergybi,
Medi 9fed, 1903.*

CUPID ga'dd wrthrychau newydd,
I anelu'i gyflym saeth;
Mon a Meirion ar foreuddydd,
Un mewn cariad gwiw a wnaeth;
Meirion gyda'i rhamantusrwydd,
Lygad-dynnodd Fon yn lân;
Mon a fynnodd yn dragywydd,
Gael meddiannu'r fun a'i chân.

Rowlands gyda'i wen gantores,
Deuawd oeddynt hwy cyn hyn;
Hymen gyda'i hynod hanes
Roes y ddau mewn cwlwm tynn;
Cydsain bellach fyddo'u bywyd,
Unawd yn y cywair llon,
A pharhad eu hanthem hyfryd,
Megis tonn yn marchog tonn.


O, mor newydd ydyw cariad,
Ac mor anorchfygol yw,
Waeth pa le na pha gyfeiriad
Byddo'r gwrthrych teg yn byw;
Amnaid cariad mewn gwrhydri,
Gludwyd gyda'r awel lefn,
Cerrigdrudion a Chaergybi
Ymhyfydant yn y drefn.

Peidied gofal byd na theulu,
 Yrru ysbryd canu 'mhell,
 Cenwch am ogoniant Cymru,
 Cenwch am y wlad sydd well;
 O'ch talentau gwnewch y gore.
 Ysgafnhewch ysbrydoedd trist,
 Cenwch yn yr hwyr a'r bore,
 Cenwch rai at Iesu Grist.



CERDYN NADOLIG.

BOED llawenydd diddan diddig
 I chwi oll ar Ddydd Nadolig,
 Mwy na hynny, boed i'ch llonder
 Bara'n hwy na dyddiau'r ddaear.
 Bydded i chwi sylweddoliad,
 Ar y dydd y ganwyd Ceidwad,
 Ceidwad i rai gwael colledig,
 Boed ei enw'n fendigedig;
 Am ei ddwyfol gariad rhyfedd
 Rhoddwn iddo wiw glodforedd.



AROS YN YR IESU.

AROS yn yr Iesu, yn ei gariad drud
 Aros yn y dirmyg gafodd yn y byd,
 Aros yn ei glwyfau, yn ei farw trist,
 Dyna fydd ein Nefoedd, aros byth yng Nghrist.

NEGES JOHN.

'DOEDD neb yn meddwl byth
 Fod John yn ymyl marw;
 'Roedd yma'n dawel a di-lyth
 Ar dywydd teg a garw :
 Eich plentyn bach oedd John,
 Er iddo gyrraedd oedran,
 Erioed ni roddwyd sugn bron
 I ddiniweitiach baban.

Nis gallai ddarllen gair,
 Nis gallai wneyd ei enw,
 Er hyn 'roedd enw " Baban Mair,"
 A swyn i John yn hwnnw.
 Adwaenai lyfr y nef,
 A throai ei ddalennau,
 Dyrchafai aml ddyfal lef
 O fawl i'r uchelderau.

Ni wyddai fawr am Dduw,
 Na chwmp ofnadwy Eden,
 Ond 'roedd ei galon fach yn fyw
 I'r Hwn fu ar y croesbren;
 Cyfodai olwg syn,
 Sibrydai enw Iesu,
 'Roedd Duw y nef yn deall hyn,
 A ninnau oll yn methu.

Adnabu'r nefol dant
 Pan yma ar y ddaear,
 Ac nid oedd seraff gwiw na sant
 Sydd heddyw'n uwch ei lafar.

Mae wedi dysgu'r Gair
 Yn berffaith yn y nefoedd,
 Mae'n darllen heddyw ieithwedd lân,
 A chân y goruwch leoedd.

Beth oedd ei neges brudd?
 Sydd yn ddirgelwch dyrus,
 Paham anfonwyd ef mor gudd
 I fyd mor dra adfydus?
 Rhyw angel fu i'w fam.
 Anfonwyd yma i weini,
 Ac aeth a'i chalon yn ddinam
 I ganol gwlad goleuni.

Mae yno heddyw'n son
 Am danoch wrth angylion,
 Dan ganu'n glir ei hoffus dôn.
 "Oll yn eu gynau gwynion";
 Mynd ato ef yw'r fraint
 Sydd gennym i'w dymuno,
 Ac uno gyda John a'r saint
 Sy'n moli'r Iesu yno.



COFFA.

Bu farw ynghanol y rhyfel,
 Cyrhaeddodd hyd derfyn ei daith;
 Cyflawnodd er hynny yn dawel
 Ei neges a'i ran yn y gwaith;
 Gorffwysec ei lwch yn ddigyffro,
 A nosied ei enaid mewn hedd,
 Daw angel ryw foreu i'w ddeffro,
 Mae baner y Groes ar ei fedd.

SAMBO A'R BIBELL.

“YN TEIMLO'N WYN.”

Cyfansoddwyd wedi gweled ei ddarlun.

Ryw ddiwrnod anochelgar,
Ceir Sambo'r bachgen du,
Yn ddigon anichellgar
Yn gwneuthur yn rhy hy',
'Roedd Sambo wedi gweled
Y dyn urddasol gwyn
Yn gyrru mŵg chwareus
O bibell wen—fel hyn!

Aeth yntau ryw ddiwrnod
I chwareu tynnu mŵg,
Ni thybiodd am y foment
Ei fod yn gwneuthur drwg.
Uchelgais Sambo druan,
Oedd bod yn fachgen gwyn,
A thybiodd mai y bibell,
A'i gwnelai ef fel hyn!

Ond Ocho! Sambo wirion,
Fe gafodd atgas dâl,
Wrth chwareu a'r tybaco
Aeth Sambo dlawd yn sâl:
Ac O! gruddfanai Sambo,—
“Yr wyf yn teimlo'n wyn,
Ond gwell bod fel y fagddu,
Na bod yn wyn fel hyn!”

Ni welwyd byth mo Sambo
 A'r bibell ffalswen hir,
 Ca'dd ddigon ar dybaco
 'Roedd hynny'n ddigon clir.
 Y Negro du diamcan
 Roes wers i lawer un,
 A dybiai mai y bibell,
 Sy'n cyfansoddi dyn!

Boddlonwch chwithau, fechgyn,
 A'r dannedd gwynion glân,
 Os gwnewch ddefnyddio baco
 Fe ant mor ddu a'r frân;
 Ca'dd Sambo druan deimlo
 Nad troi yn wyn a fu,
 Ychwaneg, feibion glandeg,
 Mae'n gwneyd y gwyn yn ddu.



DIGON YW.

DIGON yr Iesu oedd dioddef ei hunan,
 A'i enaid yn llwythog dan feiau y byd;
 Digon i ninnau yw fod ynddo haeddiant
 Yn ddigon anfeidrol i'n prynu i gyd.
 Digon ei "Aberth foddlonodd y nefoedd,"
 A digon ei fynwes sydd heddyw yn llawn;
 Digon o gariad i hwylio colledig,
 Hyd foroedd trugaredd at ddigon o "Iawn."

YR ENETH A'R GASGEN.

YR ENETH.

PA beth yw'th waith di, gasgen?
 Yr wyt o ddefnydd da,
 O bren a fu yn tyfu
 Yn rhywle 'ngwlad yr Ha!
 Ai tybed fod dy fywyd
 A roed dan haul y nen,
 Yn cael ei deg gyrhaeddyd
 A'i ddwyn yn bur i ben?

Y GASGEN.

Na, na, yr wyf o'm hanfodd,
 Yn gorfod bod fel hyn,
 Camarfer mawr a'm gyrrodd
 I ledu dorau'r glyn;
 Y diafol fu'n cynllunio.
 Ni thyr ef gregin gwag.
 A dyna pam yr ydwyf
 Yn cario diod frâg.

YR ENETH.

O! gasgen, druan, druan,
 Mae'n ddrwg gen i dy swydd,
 Ond beth am ddynion egwan
 Sy'n rhoi eu cyrff mor rhwydd,
 Yn gasgiau wrth y miloedd,
 Trybaeddant hyd y llawr,
 Pryd dylent fod yn lluoedd
 O demlau i'r Brenin Mawr.

Y GASGEN.

O! eneth fach neu fachgen,
 Dos dywed wrth y plant,
 Am eiriol dros y gasgen
 Sy'n aberth drud i chwant;
 'Rwyf yma'n dra anfoddog
 Yn gwneyd fy mhenyd waith,
 Rhybuddia'r plant yn wresog
 Na ddont i'm dyrus daith.

YR ENETH.

O! gasgen ddianrhydedd
 Yr wyt yn wael dy lun,
 Yn cario yn ddiiddiwedd
 Yr hyn a ddryga ddyn;
 Mil gwell fuasai'th dynged,
 A mwy fil mil dy barch,
 Pe byddet yn ddiarbed,
 Yn gwneyd i ddyn ei arch.

Pa beth a wnawn, O! gasgen,
 I wella'th gyflwr tlawd?
 'Rwy'n teimlo dros dy angen,
 Fel pe baet chwaer neu frawd;
 Gweddiwn ar Greawdwr
 A wnaeth bob pren mor gun,
 I newid trefn dy gyflwr,
 Trwy newid calon dyn.



HELPU IESU GRIST.

AR fore oer yn Ionawr
 Pan oedd pob bro a bryn,
 Yn orchuddiedig drosto
 Gan dô o eira gwyn,
 Fe welais ryw enethig
 A'i dwylaw bach yn llawn,
 Yn gwasgar eu cynhwysiad
 Ar lian cannaid iawn.

Pa beth a wnai? gofynnais,
 Ble'r âi di, blentyn clau,
 Nid yw yn bryd llafurio,
 Na chwaith yn amser hau;
 Gan hynny dwed, atolwg,
 Beth yw dy neges ffel,
 Ar fore mor aeafol,
 Gad glywed, eneth ddel?


Y llances lwys atebodd
 Yn llawn hoenusrwydd iach,—
 " 'Rwyf heddyw'n helpu'r Iesu
 I borthi'r adar bach!
 Mae troion rhyfedd natur
 Yn rhoi eu bwyd dan glo,
 A rhaid i minnau gofio,
 Am ran i'r adar to.

" Mae Iesu Grist a minnau,
 Yn ffrindiau tyner iawn,
 Cyflenwa'm holl anghenion,
 A cheidw'm bwrdd yn llawn.
 'Rwyf finnau'n casglu'r briwsion,
 Mae'i deulu'n fawr eu rhi,
 Fe enfyn rai bob bore
 Am damaid ataf fi.

“ Daw eto wanwyn siriol,
 I wenu ar ein tir;
 Daw'r adar bach i ganu
 Ar frigau'r coed cyn hir;
 Bydd gwrando'r sain berorus
 Yn falm i lawer trist,
 Caf finnau ddweyd pryd hynny
 Ces helpu Iesu Grist.”

* * * *

Pwy ddwed nad yw athrawiaeth,
 Yr eneth bach yn bur?
 Mae ganddi egwyddorion,
 Ar galon fel y dur,
 Mae llawer ffordd i weithio,
 A'r gwaith yn fawr ei fri,
 Rhod cymorth i mi ddwedyd,—
 Cydweithwyr Duw ym ni.



I'R FERCH AMDDIFAD.

(Ysgrifenydd mewn Album).

Ti biau'r môr a thi biau'r mynydd,
 Ti biau'r afon, a thi biau'r coed,
 Ti biau'r awyr, ti biau'r blodau,
 Deimlant anrhydedd gael bod dan dy droed,
 O eneth gyfoethog! Ti biau'r adar,
 Eiddot ti'r cwbl—etifeddes y wlad,
 Na ddigalona dy fod yn amddifad,
 Ti biau'r nefoedd, wyt *blentyn* DY DAD.

COLLI JOHN.

Bachgen Mr. a Mrs. Evans, Church Terrace.

DYMA destyn hawdd i ganu,
 Teilwng iawn o sylw plant,
 Un o ffrindiau anwyl Iesu,
 Newydd ei berffeithio'n sant;
 Brysiodd fry o ganol chwareu,
 Braidd na wyliwn ef yn ol,
 Beth a'i swynodd o'n gororau,
 Ond atyniad Dwyfol gol?

Canwn drwy ein dagrau gloewon,
 A ddylifant mor ddideddf;
 Wylwn, canwn ein halawon,
 Dagrau yw ein nodau lleddf.
 Dyna'r pryd mae'r rhosyn decaf,
 Pan y mân-wlith arno sydd,
 Felly mae y gân bereiddiaf,
 Pan fo dagrau ar y rudd.

Beth? A yw yn destyn canu
 Rhoi anwyliaid yn y llwch,
 Rhoi ein hawl o'i serch i fyny,
 Wrth eu rhoi dan ddaear drwch?
 Na, nid dyna ydyw rhoddi
 Saint yr Iesu yn y bedd,
 Dyna'r ffordd bu yntau hyd-ddi,
 Dyna brif-ffordd gwlad yr hedd.

Unwn yn y cydgan hyfryd,
 "Haleliwia" âg un llef;
 Canai John, fel am ei fywyd,
 Beth, yn awr, ynghor y nef?

Lle mae dim ond lleisiau persain
 Engyl a seraffiaid glân,
 Seintiau gyda'u nodau cywrain,
 Yno mewn tragwyddol gân.

Deulu tyner, mae eich bachgen,
 Wedi esgyn bythol fri,
 Boed i chwithau fedru darllen
 Iaith ei neges atoch chwi;
 Daeth i'r ddaear fel ymwelydd,
 Ni chadd brofi pwys na gwres,
 Yna hedodd ar foreu-ddydd
 Wedi dwyn y nef yn nes.



I'M HOFF GYFEILLES.

(Mewn Album).

'Rwy'n hoffi gweld y dolydd teg
 Yn dryfrith gan y meillion,
 A gweld yr haul a'i wenau chweg
 Yn gwrido'r blodau tlysiôn;
 Ond mwy dymunol na'r rhai hyn,
 Yw gweled menyw siriol,
 Yn gwisgo addurniadau gwyn
 O flodau byd ysbrydol.



Y GOLEUDY.

MAE'R nos yn ddofn a'r gwynt yn gryf,
 A rhuo'n groch mae'r môr yn hyf,
 A'r tonnau'n hedeg megis plyf,
 I'r glannau gan ewynu.

Mae traethell fawr beryglus draw,
 A chraig ysgythrog sydd gerllaw,
 Ac arnynt y teyrnasa braw,
 A'i wyneb fel y fagddu.

Ond edrych ar y noswaith ddu,
 Y storm a'i dwfn angeuol ru,
 A gwyneb siriol, disglair cu,
 A llawen mae'r Goleudy.

Mae llongau ar y tonnau draw,
 Yn crynu fel mewn ingol fraw,
 A'r nos a'r storm sy law yn llaw,
 Yn parotoi i'w llyncu.
 Mae'r porthladd oll yn llaw y nos,
 Fel deilen grin yng ngwaelod ffos,
 Ac Angau'n nghlust y storm ddwed " Dos,
 Cawn heno gyd-orchfygu."

Ond rhwygo y tywyllwch cudd,
 A chreu tanbeidiol siriol ddydd,
 Yng ngheudod dwfn y noson brudd,
 A'i wên y mae'r Goleudy.

Pob traethell ddofn, pob craig sydd draw,
 A'r holl beryglon ar bob llaw,
 Fel bryniau'r byd i'r golwg ddaw
 O fynwes ddofn y fagddu.
 A ffordd i'r porthladd geir yn glir,
 Heb ofni'r gwynt, y môr, na'r tir;
 I'r lan, i'r lan, i'r lan cyn hir,
 Daw'r morwyr oll dan ganu.

Angori gânt y noswaith hon,
 Heb ofnau i gyffroi eu bron,
 O dan belydron gwyneb llon,
 A disglair y Goleudy.

Rhyw borthladd cul peryglus yw
 Y byd yr ydym ynddo'n byw,
 Peryglon mawrion o bob rhyw
 Sydd yn ein hamgylchynu,
 Mae traethell fawr temtasiwn draw,
 A chreigiau pechod ar bob llaw,
 A nos o d'w'llwch megis braw,
 Sydd drostynt yn teyrnasu.
 Ond "Iawn y Groes" er hyn i gyd,
 Sydd yn pelydru ar ein byd,
 Mab Duw, a'i ddwyfol angau drud,
 Efe yw ein Goleudy.

O dan belydrau'r Dwyfol Iawn,
 Ein ffordd yn glir i'r porthladd gawn,
 Angori yn y nef a wnawn,
 Wrth edrych ar yr Iesu.
 Ei fywyd pur, a'i eiriau Ef,
 Ei aberth a'i eiriolaeth gref,
 Ei fywyd trosom yn y nef,
 A wnaiff ein llwyr waredu.
 Er fod y nos yn ddofn a phrudd,
 Mae'r Iesu'n gwneyd y nos yn ddydd,
 Edrychwn arno Ef trwy ffydd,
 Efe yw ein Goleudy.



GOLYDDAN YN EI GYSTUDD.

*Adnod a ysgrifennodd fy mrawd mewn Album
oddeutu Chwefror, 1862.*

“Llaw yr Arglwydd a gyffyrddodd â mi fel
na allwyf ganu a'm deheulaw; ac y gorfu
arnaf roddi fy nhelyn ar yr helyg.”

Yn dilyn dywed “Buddug.”

GOLYDDAN sy'n llenwi fy meddwl yn llwyr,
O doriad gwawr Dwyrain hyd fachlud yr hwyr;
Ei wyllo ef beunydd sy'n dwyn fy holl fryd,
Anghofiais yr Awen, anghofiais y byd.

ETO.

Dy ingol loes, fy anwyl frawd,
Ymedy'n llwyr â thi;
Yfory bydd dy boenus rawd,
Ymhen mewn nefol fri.

Ni gawsom rodio law yn llaw,
Pan oeddit yma'n byw,
Boed i ti estyn heb ddim braw,
Dy law, pan ddof at Dduw.

Y dagrau heddyw red yn lli,
Wrth feddwl am dy boen,
Ond sychir rhai'n pan fyddi di
Yn dechreu'th gân i'r Oen.

Dydd da, fy mrawd, dydd da,
Nid ffarwel rydd dy chwaer,
Can's cwrddydd eto â thi ga
Mewn nef yn deg a chlaer.

YMSON UWCH BEDD GOLYDDAN.

ER i'r hen ddaearen wisgo
 Deirgwaith harddwisg natur gain,
 Er pan roddwyd John i orwedd
 Yn y briddell oer ddisain;
 Ond ni wisgwyd ac ni wisgir
 Unwaith ddim o'm hiraeth i,
 Ac ni threulia amser bellach
 Ddim o'r hiraeth ynnof fi.

Adnewyddwyd gwyneb anian
 Ydoedd gynt yn llon a llwyd,
 Adnewyddwyd blodau prydferth
 I orchuddio Dyffryn Clwyd;
 Adnewyddda'm hiraeth innau
 Tra bo cariad yn fy nghol,
 Adnewyddda claddu Ioan
 Tra tywarchen ar y ddol.

Gwywo eto mae prydferthwch,
 Cwmpo eilwaith wnaeth y dail;
 Natur sydd yn cael tymorau
 Haf a gaeaf bob yn ail;
 Tymor adnewyddu beunydd
 Ydyw ar fy hiraeth i;
 Nid oes aeaf fyth edwina
 Hiraeth prudd sydd ynnof fi.



GWALIA.

(Cyfansoddwyd i Madame Kate Rowlands).

O! RYFEDDDOL serch fy nghalon,
 At fy Ngwalia, "Gwalia Wen,"
 A phe medrwn rhoddwn goron
 Eurog, emog ar dy ben,
 Gennyf mae 'rwy'n siwr er hynny,
 Rywbeth sydd yn fwy ei nerth,
 Calon bur yn caru Cymru,
 Calon wladgar, dyna werth.

Wylaist, Gwalia, am Lywelyn,
 Gwypodd er mor rymus wr;
 Wylaist am arweinwyr cedyrn;
 Do, galeraist am Glyndwr.
 Gwalia, y mae yn dy oror,
 Heddyw ddynion—meib dy dir,
 Orchfygasant trwy egwyddor,
 Safant heddyw ar y gwir.

Walia anwyl, daeth yn oleu,
 Ar dy gyflwr erbyn hyn,
 Mae ysbrydoedd ein cyndadau
 Heddyw'n gweld dy fore gwyn;
 Rhyddid wedi gwawrio arnat,
 Canu ddylet ti yn awr,
 Gormes mewn cadwynau danat,
 Canwn bellach am y wawr.



Y CYMRO MEWN GWLAD ESTRONOL.

GADEWAIS fy nghartref yng Nghymru,
 Ac aelwyd hoffusaf fy nhad;
 Er hyn ni adewais fy nghariad,
 Fy serch at fy ffrindiau a'm gwlad;
 Er cryfed haul crasboeth yr India,
 Sy'n gwneuthur fy nwyfiant yn wyw,
 Tra dafn o waed Brython yn aros,
 Fe garaf fy nghartref a'm Duw.

Meddyliais pe cawswn i groesi
 Cyhydedd rhwng deuben y byd,
 Fod yno ryw fan fel paradwys,
 A llawnder a mwynder ynghyd;
 Meddyliais fod hawddfyd a moethau,
 Yn tyfu fel ffrwythau y coed;
 A golud fel gemau symudliw,
 Lle bynnag y rhoiswn fy nhroed.

Ond ha! er fy ngofid alaethus,
 Rwy'n gweled mai breuddwyd oedd hyn,
 A rhaid oedd i diroedd a moroedd
 Fy ysgar o'm cartref bach gwyn;
 'Rwy'n gweld erbyn heddyw yn eglur
 Mai llafur a blinder sydd ben,
 A'm hunig uchelgais i bellach
 Fydd dychwel i Gymru fach wen.



I FERCH IEUANC.


A WELI di yr eneth lon,
Feithrinwyd ar aelwyd glyd,
Yn awr heb bigyn dan ei bron,
A'i llwybrau yn wyn i gyd;
Gofalaeth tad, a chariad mam,
Sy'n gylchoedd o'i hamgylch hi;
Hithau ymddengys mor ddinam,
Yn llawn hoenusrwydd a bri.

Ymlaen yr a, dadblyga'n deg,
Fel blodyn tirionaf gardd,
A pherarogledd rhosyn chweg,
Yn gwasgar o'i bywyd hardd;
Mae engyl gwawr yn gwylio hon,
Fel gosgordd o'r drydedd nef,
A phelydr byw ei llygaid llon,
Gyfeiriant hyd ato Ef.

Blodeuyn prydferth ydoedd hi,
Yn cario lliwiau'r nef
A pherarogledd rhwng y dail
Yn sawru o'i arogl Ef;
Nid rhyfedd i'w rhieni hoff
Ei charu ar y llawr,
Yr un mor fuan oedd i fod
Ym mhwysi'r Brenin Mawr.

Daeth Haul Cyfiawnder yn ei rym,
Tywynnodd yn ei bron,
A gwnaeth ei hysbryd peraidd hi,
Ry dda i'r daear hon;

Ehedodd fry uwch llygredd byd,
 A gwisg ddilychwin wen,
 Ac engyl nef ar frys am roi
 Y goron ar ei phen.



Y BEDD.

Y BEDD, O gysegredig fan,
 Cartrefle dynol ryw i gyd;
 Paham dychryna'r galon wan,
 Wrth feddwl am y daith o hyd?

“ Y fan ” lle bu ein Harglwydd glân,
 Paham dychmygwn bethau cas?
 Prif gyrchfan pawb o fawr i fân,
 Yw'r “ fan ” o dan dywarchen lân.

Y baban oddiar y fron,
 Yr eneth ieuanc heinyf iach,
 Y gwr o ganol teulu llon,
 A'r fam oddiwrth ei baban bach,—

Mae'r bedd yn gysegredig, pam?
 Am mai anwyliaid yno sydd;
 I bawb mae brawd, chwaer, tad neu fam,
 Ac yno ninnau'n union fydd.

O planner blodau ar bob bedd,
 A gwneler y fynwent megis gardd;
 Cysyllt-nod yw a'r nefol hedd,
 Trwy'r bedd yr Adgyfodiad dardd.

CARIAD GWRAIG Y MEDDWYN.

I BETH y cyffelybaf fi
Y cariad rhyfedd sydd gan hon?
Athroniaeth ddofn a'm hetyb i,
Nis gellir byth ddim plymio'i bron;
Ceir myrdd rhesymau a phaham
Y câr y fam ei baban bach.
Rhinweddau fil ddyrchefir am
Ragorion yr un heinyf iach.

Ond, wele'r pentwr, aflan, hyll,
Yw'r adyn meddw yn y llaid,
Da ydyw iddo gael y gwyll
I guddio ei druenus raid.
A heibio yr offeiriad gwych,
A'r Lefiad yntau yr un modd,
Gadawant ef i warth yn ddrych,
A'i garedigion gynt a ffodd.

Ond ha! dynesa un drwy'r oll,
Er siglo megis llong yr aig,
Dwys chwilia am ryw un sy'n ngholl,
Pwy ydyw? Ond ei anwyl wraig!
Nid yw yn edliw cwpwrdd gwag,
Na chefnau llwm eu hanwyl blant,
Na'r aberth rydd i'r ddiiod frag,
Ar allor wael ei wancus chwant.

Ei serch sydd fel colomen hardd,
Yn hedeg uwch y stormydd blin,
A thra o'i galon bywyd dardd
Bydd deilen gobaith rhwng ei min;

Er curo ar greigiau siomiant erch,
 Daw fel y donn drachefn yn ol,
 A chyda'r gallu sydd gan ferch,
 Anghofia ei holl droion ffol.

Pa ddiolch sydd i'n cariad ni
 Ymserchu ar wrthrychau teg?
 Anhawsder fyddai atal lli
 Atynnol sydd mor hynod chweg;
 Ond, gwraig y meddwyn gâr mor hael,
 Fel mai'r tebyca'n ddiâu yw
 I'r cariad at greadur gwael
 Y sydd ym mynwes fawr fy Nuw.



IESU GRIST.

(Emyn).

Ti Iesu yw fy noddfa glyd,
 Rhag pob rhyw storom gref;
 Ac ynnot ti yn unig mae
 Fy ngobaith am y nef;
 Mae bywyd a thragwyddol hedd
 Yn enw Mab y Dyn,
 Nid oes a leinw f'enaid i
 Ond Iesu Grist ei hun.



HEDDYW AC YFORY.

(Cyflwynedig i Gyfaill).

GALAR ac wylo, llawenydd a chân
Yw'r bywyd cymysglyd ymhlith mawr a mân,
Tymorau gwahanol, yw'n hoes ar ei hyd,
Neu heulwen a dryghin yw'r cyfan i gyd.

Y llyfnfor sydd heddyw yn dawel ei wedd,
Ei olwg yn wylaidd, a'i wyneb yn hedd;
Ond och! bydd y fory o donn wen i donn,
A'i olwg ffyrnigwyllt yn arswyd i'm bron.

Y dolydd ysblennydd sydd heddyw'n ddi-ail,
Ond fory'n ddisymwth bydd cwympiad y dail
Gan adael y goedwig yn oer ac yn llwm,
A cherfio dwys drymder ar bob dol a chwm.

Rhosynau sydd heddyw yn britho yr ardd,
Yn sawyr eu harogl y galon a chwardd;
Ond fory ceir gweled y lili a'r rhos
Yn dyrrau crinedig yn nyfnder y ffos.

Y dwylaw chwareuodd y delyn hoff swyn,
Y gwyneb a wenodd mor hynod o fwyn;
A ddaliwyd gan ddrannoeth, ac angau du erch
A wywodd y bysedd, a rewodd y serch.

Y ceraint sy'n wylo a'u calon fel plwm,
Eu gofid sy'n chwerw, eu hiraeth yn drwm,
Ond cariad sy'n nerthol, a'r ffydd sydd yn wan,
Arosch tan 'fory cewch weled eich Ann.


ALICE AR BEN EI BLWYDD.

GWENED nefoedd ar dy flwyddi,
 Gwened daear ar dy daith,
 Cadwed Iesu'th lwybr drwyddi,
 Mewn ffyddlondeb gyda'i waith;
 Rhinwedd fyddo fyth yn ieuanc,
 Er i'th ddyddiau dreulio'n hen,
 Yna iti hoender didranc
 Dan dywyniad nefol wên.



MEWN BEIBL.

“ DYMA Feibl anwyl Iesu,”
 “ Dyma rodd ” dy anwyl ffrynd,
 Mae yr amser yn dynesu,
 Pan y bydd *hi wedi mynd*;
 Dyma ffrynd a fydd yn aros,
 Gwna yn fawr o'i eiriau glân;
 Ymhob tywydd, bydd yn ddiddos
 Gysgod yn y dwr a'r tân.



HEDDWCH.

HEDDWCH er pob chwerw loes,
 Heddwch er pob garw groes,
 Heddwch er o dan y donn,
 Heddwch Iesu yn fy mron,
 Nefoedd er pob troion trist,
 Ddyry heddwch Iesu Grist.

"BUDDUG" YN EI CHYSTUDD.


(Ei Hemyn Olaf).

Os yw fy ngwaith ar ben,
 A'r nos yn taenu'i llen,
 Tydi, fy Nuw, a wyr.
 Diolch am hyd y daith
 A'r cynnal dyfal maith
 Mewn mwyniant yn dy waith,
 O fore hyd yr hwyr!

Noswyllo 'rwyf yn awr
 I godi gyda'r wawr,
 Mewn gloewach, hoewach fyd.
 Mae'n dda yr ochr hyn,
 Daw aml lygedyn gwyn,
 Beth wedi croesi'r glyn,
 Lle bydd yn haf o hyd!

Y blinder oll ar ol,
 A diogelwch col
 Fy Iesu am danai'n dynn.
 Ni raid ffarwelio'n hir,
 A'r Ganan deg mor glir,
 Cawn gwrddydd yno'n wir
 Fy hoff anwylyd gwyn.

O hyfryd, hyfryd fydd.
 Yng ngwlad tragwyddol ddydd,
 Heb ofni'r machlud mwy.
 Y teulu yn gytun,
 Heb fod yn ol yr un,
 A'r Iesu yno'i hun,
 I'w diogelu hwy.



Llyfrau Newyddion.

*Cyhoeddedig gan Gwmni'r Cyhoeddwyr Cymreig (Cyf.),
Caernarfon.*

Nid yw y llyfrau hyn yn gyfres er eu bod oll o'r
un plyg a maint.

LLIAN, 112 TUDALEN, DARLUNIAU.

PRIS, SWLLT YR UN.

YN BAROD.

I.

CLYCH ADGOF.

Penodau yn hanes fy addysg.

GAN OWEN EDWARDS.

- | | |
|-------------------|-----------------------|
| 1.—Ysgol y Llan. | 5.—Y Bala. |
| 2.—Hen Fethodist. | 6.—Aberystwyth. |
| 3.—Llyfr y Seiat. | 7.—Rhydychen. |
| 4.—Fy Nhad. | 8.—Dyrnoid o Beiswyn. |

II.

GWREICHION Y DIWYGIADAU.

WEDI EU CASGLU GAN GARNEDDOG.

Penhillion y Diwygiadau, tân oddiar yr allor,
yn llawn ysbryd ac athrylith.

III.

TRO TRWY'R WIG.

GAN RICHARD MORGAN.

Y Gyfrol Gyntaf.

- | | |
|----------------------|-----------------------|
| 1.—Coch y Berllan. | 4.—Bore Teg. |
| 2.—Priodas y Blodau. | 5.—Carwriaeth y Coed. |
| 3.—Nyth Aderyn Du. | 6.—Crafanc yr Arth. |
| 7.—Telor yr Helyg | |

IV.

CERRIG Y RHYD

Llyfr o hanes rhai'n camu cerrig rhyd bywyd

GAN WINNIE PARRY.

Cerrig y Rhyd. Y Cawr Hwnw. Y Plas Gwydr. Cwyn y Rhosyn. Anwylaf. Uchelgais y Plant. Y Goedwig Ddu. Blodau Arian. Fy Ffrog Newydd. Y Marchog Glas. Hen Ferch. Breuddwyd Nadolig. Huw. Esgidiau Nadolig. Y Castell ger y Lli. Dros Foel y Don.

V.

CAPELULO.

GAN ELFYN.

Bore Oes; Crwydro'. Byd; Troi Adre; Troi Dalen, Sêl Tomos; Dysgu Darllen; "Dydd Iau"; Balchder a Phwdin; Gwerthu Almanaciau a Cherddi; Traethu ar Briodas; Anerchiadau a Chynghorion; Araeth Danllyd; Pregeth i Berson; Cwestiynau'r Cyfrwys; Dafydd Evans y Pandy; Cyfarfod Gwytherin; Yn y Cyfarfod Gweddi; Tagu Prydydd; Dywediadau ac Ymgomiau; Tomos ac I. D. Ffraid; Y Gweinidog o'r De; O Flaen yr "Ustus"; Rhyfel â Satan; Yn y Seiat; Galwad Adref.

VI.

TRO TRWY'R GOGLEDD.

GAN OWEN EDWARDS.

- | | |
|-------------------------|---------------------|
| 1.—Blaenau Ffestiniog. | 5.—Ty'n y Groes. |
| 2.—Y Perthi Llwydion. | 6.—Llan ym Mawddwy. |
| 3.—O gylch Carn Fadryn. | 7.—Pen y Bryn. |
| 4.—Harlech. | 8.—Y Bryn Melyn. |

VII.

ROBERT OWEN, APOSTOL LLAFUR.

GAN Y PARCH. RICHARD ROBERTS, B.A.

Y cartref yn y Drefnewydd. Y Siop yn Llundain. Manceinion, Lanark Newydd. Amseroedd Rhyfedd. Trueni'r gweithiwr. Adam Smith a Malthus. Ym Mharis a'r Ynys Werdd. Ymroddi i wella cymdeithas. Ei syniadau.

VIII.
DAFYDD JONES O DREFRIW.

GAN Y PARCH. O. GAIANYDD WILLIAMS.

Y Llenor a'i oes. Amcan a lle Dafydd Jones. Pwy ydoedd. Bywyd a Buchedd. Ei Farddoniaeth Ei Grefydd. Ei Lyfrau. Bwriadau Llenyddol. Fel casglwr hen ysgriflyfrau.

IX.

TRO I'R DE.

GAN OWEN EDWARDS.

- | | |
|---------------------|--------------------|
| 1.—Caer Leon Fawr. | 4.—Abertawe. |
| 2.—Llanidloes. | 5.—Yr Hen Dy Gwyn. |
| 3.—Llanfair Muallt. | 6.—Llangeitho. |

X.

GWAITH HUGH JONES, MAESGLASAU.

DAU O'I LYFRAU,—SY'N BRINION IAWN ERBYN HYN.

I.—"Cydymaith i'r Hwsmon." 1774.

II.—"Hymnau Newyddion." 1797.

XI.

TRWY INDIA'R GORLLEWIN.

GAN Y PARCH. D. CUNLLO DAVIES.

Nodiadau o hanes taith trwy yr ynysoedd yng ngauaf 1903-04.

XII.

CERIS Y PWLL.

GAN O. WILLIAMSON.

Rhamant hanesyddol yn egluro cyfnod yr ymdrech rhwng Goidel a Brython a ffurfiad y genedl Gymreig.

CLASURON CYMRU.

Dan olygiath Owen M. Edwards, M.A.

GWELEDIGAETHAU Y BARD D CWSG.

GAN ELLIS WYNNE.

1. Gweledigaeth Cwrs y Byd. 2. Cerdd ar "Gwel yr Adeilad." 3. Gweledigaeth Angau. 4. Cerdd ar "Gadel Tir." 5. Gweledigaeth Uffern. 6. Cerdd ar "Trom Galon."

Wedi ei drefnu ar gyfer yr ysgolion.

DRYCH Y PRIF OESOEDD.

GAN THEOPHILUS EVANS.

1. Y Cymry. 2. Y Rhufeiniaid. 3. Y Brithwyr. 4. Y Saeson.

"Am ddyddordeb *Drych y Prif Oesoedd*, nid oes ond un farn. Y mae'r arddull naturiol a'r cydmariaethau hapus ar unwaith yn ein denu i ddarllen ymlaen."

BYWYD IEUAN GWYNEDD.

GANDDO EF EI HUN.

1. Ardal Mebyd. 2. Fy Mam. 3. Bore Oes. 4. Athrawon. 5. Cathlau Blinder. 6. Gwaith Bywyd.

"Nid oes odid i fywyd yn holl hanes bechgyn ieuainc Cymru mor llawn o wersi i wyr ieuainc yr oes hon a Bywyd Ieuan Gwynedd, yn ei geni dros Dduw a Chymru, trwy dlodi ac afiechyd, a hiraeth a dioddef. Y mae yn fywyd na ddylai'r Cymry byth anghofio am dano."

Wedi eu rhwymo mewn llian hardd, gyda darlun.

PRIS SWLLT YR UN.

Drwy y post, 1/1½. Mewn amlen bapur, 6c.
Drwy y post, 7c.

Cwmni y Cyhoeddwyr Cymreig (Cyf.), Swyddfa
"Cymru," Caernarfon.

